



Home Office

Y Gofyniad Plismona Strategol

Chwefror 2023



© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/strategic-policing-requirement>

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn: PSGHub@homeoffice.gov.uk (At Sylw: Uned Galluoedd Cenedlaethol yr Heddlu)

Cynnwys

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref	2
Cyflwyniad	4
Sicrwydd a Llywodraethu	9
Trais yn Erbyn Menywod a Merched	13
Terfysgaeth	20
Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol	29
Digwyddiad Seiber Cenedlaethol	48
Cam-drin Plant yn Rhywiol	54
Anrhefn Cyhoeddus	60
Argyfyngau sifil	66
Galluoedd Trawsbynciol	71

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Cartref

Mae fy nghenhadaeth fel Ysgrifennydd Cartref yn glir: Er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r bobl, cwtdogi troseddu a darparu'r strydoedd mwy diogel mae'r cyhoedd yn eu disgwyl ac yn eu haeddu. Mae'r Gofyniad Plismona Strategol (SPR) yn chwarae rhan hanfodol wrth ganiatáu i mi osod y cyfeiriad yn erbyn y bygythiadau mwyaf i ddiogelwch y cyhoedd a sicrhau bod gan yr heddlu'r galluoedd i ddarparu ymateb cenedlaethol, cadarn a phriodol gan sicrhau bod plismona synnwyr cyffredin yn bodoli.

Mae'r SPR diwygiedig yn darparu, am y tro cyntaf, fanylion cryfach ynghylch y camau gweithredu sydd eu hangen o blismona ar lefel leol a rhanbarthol i'r bygythiadau cenedlaethol difrifol. Mae'n cefnogi plismona, yn Brif Gwnstabiliaid a Chomisiynwyr, i gynllunio, paratoi ac ymateb i'r bygythiadau hyn drwy gysylltu'n glir yr ymateb lleol â'r cenedlaethol, gan amlygu'r galluoedd a'r partneriaethau sydd eu hangen ar blismona i sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau cenedlaethol.

Ni fydd llawer o'r bygythiadau'n newydd i blismona; rydym yn parhau i fod yn wylidwros o fygythiad terfysgaeth ryngwladol ac yn ymroddedig yn ein hymrwymiad i darfu ar droseddwr sy'n manteisio ar y rhai sy'n agored i niwed, gan gynnwys gangiau traffig dynol cyfundrefnol sy'n parhau i hwyluso'r llwybrau anghyfreithlon trwy gychod bach a'r rhai sy'n manteisio ar ddiodeffwyr bregus fel rhan o linellau sirol cyflenwi cyffuriau - amcangyfrifir bod 600 o linellau ar waith ledled y wlad mewn unrhyw fis penodol, yn gysylltiedig ag achosion o drais difrifol a throseddau cyllyll.

Rwyf hefyd am sicrhau ein bod yn darparu cyfiawnder a chanlyniadau o ansawdd uchel i fenywod a phlant sy'n ddiodeffwyr trais rhywiol a cham-drin domestig. Rwyf felly wedi cynnwys VAWG fel bygythiad cenedlaethol ychwanegol, fel yr argymhellwyd gan HMICFRS yn eu hadroddiad 'Ymateb yr Heddlu i Drais yn erbyn Menywod a Merched (VAWG)' (2021). Bydd cynnwys VAWG yn caniatáu i heddluoedd wneud y mwyaf o'r galluoedd sydd eu hangen, gan gynnwys achub ar y cyfleoedd a gyflwynir gan Ymgyrch Soteria, i atal a dilyn troseddu VAWG. Rwyf hefyd wedi diweddarau'r adran 'Anrhefn Cyhoeddus' yn sylweddol wrth i blismona barhau i atal tactegau peryglus ac aflonyddgar iawn a ddefnyddir gan brotestwyr cyfundrefnol sy'n creu llanast i fywydau'r mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith cac yn tynnu swyddogion heddlu i ffwrdd o'u cymunedau lleol. Bydd y Bil Trefn Gyhoeddus (a gyhoeddwyd 11 Mai 2022) yn caniatáu i'n swyddogion heddlu gymryd camau rhagataliol i brotestiadau aflonyddgar a welir gan rai fel Just Stop Oil. At hynny, bydd y ddarpariaeth newydd o alluoedd tynnu protestiadau arbenigol yn helpu i atal y niwsans hwn.

Mae trefniadau atebolrwydd a throsolwg newydd yn golygu y bydd y cyhoedd bellach yn gweld cyfeiriad clir at yr SPR mewn cynlluniau heddlu a throseddu, gan gynnwys sut y

mae wedi llunio cyfeiriad strategol ac amcanion heddluoedd ac felly sut mae'r heddlu hwnnw yn cyfrannu at fynd i'r afael â bygythiadau â blaenoriaeth genedlaethol.

Rwy'n parhau yn gadarn yn fy nghefnogaeth i ddull 'plismona synnwyr cyffredin' ac rwy'n ymwybodol nad yw llawer o waith yr heddlu yn dod o dan bamedrau'r SPR ond ei fod yn parhau i fod yn hollbwysig. Mae'n hanfodol bod plismona hefyd yn parhau i ganolbwyntio ar droseddu yn y gymdogaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cymunedau lleol, gan weithio'n agos gyda chynghorau a phartneriaid lleol eraill sydd hefyd â rhan i'w chwarae. Rwyf felly yn cefnogi heddluoedd yn llwyr yn eu hymrwymiad i fynychu lleoliad pob byrgleriaeth breswyl. Bydd presenoldeb gweladwy mewn cymunedau lleol yn helpu i gadw hyder y cyhoedd mewn plismona, yn enwedig tra bod llawer yn poeni am y cynnydd mewn costau byw.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r rhai sydd wedi cyfrannu at yr SPR diwygiedig a phawb ar y rheng flaen sy'n ymateb i'r bygythiadau hyn yn ddyddiol i sicrhau diogelwch y cyhoedd.

Cyflwyniad

1. Diweddarwyr y Gofyniad Plismona Strategol (SPR) ei ddiwethaf yn 2015 wrth gyflawni dyletswydd statudol yr Ysgrifennydd Cartref i nodi beth yw'r bygythiadau cenedlaethol, yn ei barn hi, ar adeg cyhoedd'r ddogfen, a'r galluoedd cenedlaethol priodol sydd eu hangen i wrthsefyll y bygythiadau hynny.¹
2. Er y gall heddluoedd unigol fynd i'r afael â llawer o fygythiadau yn eu hardaloedd heddlu hunain, gall bygythiadau cenedlaethol hefyd ofyn am ymateb cydgysylltiedig neu gyfunol lle mae angen dod ag adnoddau ynghyd o nifer o heddluoedd. Yn aml mae angen i rymoedd weithio ar y cyd, gyda phartneriaid lleol eraill a gwasanaethau brys, o fewn cydweithrediadau rhanbarthol neu gydag asiantaethau cenedlaethol, i sicrhau bod y bygythiadau cenedlaethol yn cael eu taclo'n effeithlon ac yn effeithiol.
3. Mae'r SPR diwygiedig hwn yn cynnwys saith bygythiad cenedlaethol yn gyffredinol, gan ailddatgan dilysrwydd chwe bygythiad cenedlaethol o'r fersiwn flaenorol, sef terfysgaeth, troseddau difrifol a chyfundrefnol (SOC), digwyddiad seiber cenedlaethol, cam-drin plant yn rhywiol, trefn gyhoeddus ac argyfyngau sifil. Mae hefyd yn cynnwys Trais yn erbyn Menywod a Merched, sy'n adlewyrchu'r bygythiad y mae'n ei gyflwyno i ddiogelwch a hyder y cyhoedd ar adeg ei gyhoeddi (gweler diffiniad o fygythiad cenedlaethol isod ym mharagraff 7).

Adolygiad SPR

4. Ers yr adolygiad diwethaf o'r SPR yn 2015, bu newidiadau pwysig i'r dirwedd blismona. Bellach mae gan y Bwrdd Plismona Cenedlaethol (NPB) rôl sy'n canolbwyntio ar y weledigaeth strategol ar gyfer plismona ac mae plismona'n parhau i wynebu bygythiadau sy'n newid yn gyflym, yn aml yn fygythiadau heb ffiniau. Cyflwynodd y newidiadau hyn gyfle i adolygu'r SPR i sicrhau ei fod yn parhau'n gyffredol ac yn addas i'r diben ac yn cefnogi plismona i fynd i'r afael â'r bygythiadau hyn. Daeth y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (PAC) i farn debyg yn ei adroddiad ar droseddau difrifol a chyfundrefnol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2019 pan argymhellodd y dylai'r Swyddfa Gartref adolygu'r SPR ac ystyried anghenion a galluoedd lleol heddluoedd.²

¹ Mae hyn yn unol ag a37A Deddf yr Heddlu 1996 fel y'i diwygiwyd gan a77 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

² <https://publications.parliament.uk/pa/cm201719/cmselect/cmpublic/2049/2049.pdf>

5. Wrth adolygu'r SPR, ymgynghorodd y Swyddfa Gartref a chael cyngor gan bartneriaid plismona a rhanddeiliaid i hystyried: y bygythiadau cenedlaethol presennol ac a oeddent yn parhau'n berthnasol; yr ymateb plismona gofynnol a'r galluoedd lleol a rhanbarthol angenrheidiol; a'r trefniadau llywodraethu priodol addylai fod ar waith i sicrhau bod plismona yn cael ei ddwyn i gyfrif am ei gyfraniad cenedlaethol. Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu'r ymgynghoriad a'r gwaith a gwblhawyd yn ystod yr adolygiad hwnnw.
6. Roedd y partneriaid a ymgynghorwyd yn cynnwys: Prif Gwnstabiliaid; Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC); Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (APCC); Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau (PCCs)³; y Coleg Plismona; Canolfan Gydgysylltu Genedlaethol yr Heddlu (NPoCC); Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA); Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS); Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP); yn ogystal ag adrannau eraill y llywodraeth sydd â diddordeb yn yr SPR fel Swyddfa'r Cabinet a'r Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC).

Fframwaith SPR

7. Mae "bygythiad cenedlaethol", fel y'i diffinnir yn a.37A o Ddeddf yr Heddlu 1996, yn fygythiad (boed yn un gwirioneddol neu'n ddarpar fygythiad) sef:
 - a. bygythiad i ddiogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd, trefn gyhoeddus neu hyder y cyhoedd sydd o'r fath ddifrifoldeb ag i fod o bwysigrwydd cenedlaethol; neu
 - b. bygythiad y gellir ei wrthweithio'n effeithiol neu'n effeithlon dim ond trwy alluoedd plismona cenedlaethol i wrthsefyll y bygythiad.
8. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yr SPR yn mynegi'r bygythiadau troseddol a therfysgol ac argyfyngau sifil eraill sy'n gofyn am ymateb plismona trawsffiniol. Mae hyn naill ai oherwydd bod y bygythiad ei hun yn croesi ffiniau heddluoedd neu oherwydd bod yr ymateb sydd ei angen i ddigwyddiad lleol fod yn fwy na gallu heddlu lleol, a bod angen defnyddio adnoddau o heddluoedd eraill. Mae'n cynnwys y rhai sy'n:

³ Defnyddir y term Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau fel llaw-fer i gyfeirio at yr holl Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau, pob Maer Awdurdod Cyfun sy'n arfer swyddogaethau CHTh, Swyddfa'r Maer ar gyfer Plismona a Throseddau mewn perthynas ag ardal Heddlu Metropolitan a Chyngor Cyffredin Dinas Llundain yn ei allu fel awdurdod heddlu ar gyfer ardal Heddlu Dinas Llundain. Bwriedir i gyfeiriad yn y ddogfen hon at Brif Gwnstabl fod yn berthnasol i bob Prif Gwnstabl mewn heddlu yn y Swyddfa Gartref yng Nghymru a Lloegr, Comisiynydd Heddlu'r Metropolis, a Chomisiynydd yr heddlu ar gyfer Dinas Llundain.

- a. alinio â'r risgiau blaenoriaeth yn yr Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol (NSRA);
 - b. effeithio ar ardaloedd heddlu lluosog neu bob un ohonynt ac angen adnoddau lleol a/neu ranbarthol gan luoedd heddlu lluosog i gwrthsefyll y bygythiad yn effeithlon ac effeithiol; ac mae'n cynnwys y rhai hynny;
 - c. efallai wedi gweld cynnydd sylweddol ac eang diweddar a/neu effaith ar y cyhoedd fel bod angen ymateb lleol, rhanbarthol a/neu genedlaethol cydlyno a chyson i'w wrthwynebu.
9. Daeth ymgynghoriad 2020/21 ar yr SPR i'r casgliad bod angen i'r chwe bygythiad - terfysgaeth, SOC, digwyddiad seiber cenedlaethol, cam-drin plant yn rhywiol, anrhefn cyhoeddus ac argyfyngau sifil - barhau i gael eu hadnabod fel bygythiadau cenedlaethol. Fodd bynnag, fel rhan o'r adolygiad, cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at fasnachu cyffuriau, yn benodol y model llinellau sirol, a thwyll fel bygythiadau sy'n croesi ffiniau heddluoedd y mae i blismona fynd i'r afael â hwy. Mae'r feriswn hwn o'r SPR yn cynnwys y galluoedd o fewn yr ymateb i fygythiad SOC, sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r niwed i gymunedau ac unigolion a achosir gan gyffuriau a thwyll.
10. Ar gyfer pob un o'r bygythiadau cenedlaethol, mae'r SPR yn amlinellu'r hyn y dylai heddluoedd fod yn gweithio tuag ato, sut y dylai heddluoedd fynd i'r afael â'r bygythiadau unigol, a gyda phwy y dylent fod yn gweithio. Nodir y manylion hyn yn ail ran yr SPR hwn. Mae'r SPR yn dadansoddi'r ymateb i bob un o'r bygythiadau yn ôl y chwe philer canlynol:
- a. **Canlyniadau.** Mae'r adran hon yn amlinellu'r canlyniadau strategol y dylai heddluoedd weithio tuag atynt wrth fynd i'r afael â'r bygythiadau cenedlaethol sy'n deillio, lle bynnag y bo'n bosibl, o strategaethau'r llywodraeth sydd ar gael yn gyhoeddus fel strategaeth CONTEST, y Strategaeth Mynd i'r Afael â Cham-drin Plant yn Rhywiol neu'r Strategaeth Twyll sydd ar ddod.
 - b. **Galluoedd.** Mae'r adran hon yn nodi'r galluoedd (a ddiffinnir yn fras fel swyddogaethau y mae'r heddlu'n eu cyflawni, wedi'u ffurfio o gyfuniad o bobl, prosesau, TG, data, offer a seilwaith) a ddylai fod ar waith, naill ai o fewn heddluoedd neu fel rhan o gytundebau cydweithredu, i wrthweithio pob un o'r bygythiadau cenedlaethol ac i ysgogi canlyniadau. Mae'n nodi'r lle gorau i leoli galluoedd (e.e. ar haen ranbarthol neu leol) i osgoi dyblygu galluoedd yn ddiangen ac yn aneffeithlon ar draws haenau gorfodi'r gyfraith. Fodd bynnag, nid yw rhai o'r

galluoedd sydd eu hangen i ymateb i'r bygythiadau cenedlaethol yn benodol i un bygythiad. Mae'r SPR hefyd yn manylu ar Alluoedd Trawsbynciol arbenigol (paragraff 144 ymlaen) y gellir eu defnyddio i ymateb i o leiaf tri o'r bygythiadau cenedlaethol.

- c. **Gofynion gallu.** Mae'r adran hon yn amlinellu sut mae gallu'n cael ei asesu ar lefel y heddlu i sicrhau bod y lefel gywir o adnoddau ar gael i fodloni'r galw ac ysgogi canlyniadau.
- d. **Cysondeb a safonau.** Mewn rhai achosion, mae gofynion a safonau penodol i'w bodloni, neu ganllawiau penodol y dylid eu dilyn ar gyfer galluoedd ac adnoddau penodol. Lle mae safonau cenedlaethol wedi'u pennu, caiff y rhain eu hamlinellu yma i sicrhau bod galluoedd yn cael eu darparu mewn ffordd gyson ledled Cymru a Lloegr, gan hwyluso rhyngweithredu rhwng heddluoedd.
- e. **Cydweithio.** Mae'r adran hon yn amlinellu sut y dylai heddluoedd lleol weithio gyda threfniadau rhanbarthol presennol ac asiantaethau cenedlaethol i fynd i'r afael â'r bygythiadau cenedlaethol sy'n croesi ffiniau. Nid dyma'r unig drefniadau cydweithredu y gellir eu ffurfio o fewn plismona. O dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011, mae gan brif swyddogion a chyrrff plismona ddyletswydd i ystyried cydweithredu lle bo hynny er budd effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd eu hardaloedd heddlu eu hunain ac ardaloedd heddlu eraill, ac i gadw'r trefniadau hyn dan adolygiad. Mae llawer o heddluoedd eisoes yn cydweithio ar wasanaethau a'r galluoedd a restrir yn yr SPR. Mae'r Swyddfa Gartref yn annog cydweithio lle mae hynny'n sicrhau'r canlyniadau mwyaf effeithlon ac effeithiol i'r cyhoedd.
- f. **Cysylltedd â phartneriaid.** Mae'r adran hon yn amlinellu lle mae angen i heddluoedd fod â chysylltiadau da â phartneriaid lleol eraill, er enghraifft gyda gwasanaethau brys golau glas eraill neu gyda'r sector preifat, wrth ymateb i'r bygythiadau cenedlaethol. Mae'n cydnabod bod mynd i'r afael â'r bygythiadau cenedlaethol hyn yn gofyn am ymateb system gyfan ac nad yw heddluoedd yn gweithredu ar eu pennau eu hunain.

Y Cynllun Trechu Trosedd

11. Mae'r dull o ddatgelu a rhoi terfyn ar niwed cudd a meithrin gallu a chapasiti i ymdrin â thwyll a throseddau ar-lein wedi'u nodi yn Cynllun Trechu Trosedd⁴. Y Cynllun Trechu Trosedd yw strategaeth y Llywodraeth i gwtogi ar droseddu, cael llai o ddioddefwyr ac amddiffyn y mwyafrif sy'n ufudd i'r gyfraith.
12. Fel mae'r Cynllun Trechu Trosedd yn ei wneud yn glir, roedd ymyriadau wedi'u seilio ar dystiolaeth ac wedi'u targedu fel y Gronfa Strydoedd Mwy Diogel, wedi'u hategu gan blismona synnwyr cyffredin, wrth wraidd strategaeth y Llywodraeth i leihau troseddau fel byrgleriaeth a lladrad. Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi ei gwneud yn glir i Brif Gwnstablaid a'r Chomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd bod yn rhaid iddynt gael y pethau sylfaenol yn gywir a gwella perfformiad heddluoedd ledled y wlad, gan ddysgu o arfer gorau wrth fynd i'r afael â'r troseddau ymledol a chythryblus hyn; amlygwyd ymhellach yn adroddiad diweddar HMICFRS⁵ ar ymateb yr heddlu i fyrgleriaeth, lladrad a throseddau meddiangar eraill. Mae'n bwysig bod Prif Gwnstablaid a Chomisiynwyr yn monitro tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a bod ganddynt gynlluniau ar waith i ddelio ag unrhyw fygythiadau newydd neu gynnydd yn y troseddau hyn, yn enwedig o ystyried symud i ffwrdd o gyfyngiadau COVID-19 a chyfnodau clo a her y ffactorau costau byw presennol.

Cymhwysio SPR

13. Mae'r SPR yn berthnasol i Brif Gwnstablaid a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddwyr yn heddluoedd y Swyddfa Gartref yng Nghymru a Lloegr ac yn eu cefnogi i sicrhau bod eu heddlu yn cyflawni ei gyfrifoldebau cenedlaethol wrth fynd i'r afael â'r bygythiadau cenedlaethol. Mae'r SPR:
- yn helpu Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i gynllunio'n effeithiol, mewn ymgynghoriad â'u Prif Gwnstabl, ar gyfer heriau plismona sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau eu heddlu;
 - yn arwain Prif Gwnstablaid wrth arfer y swyddogaethau hyn; ac
 - yn galluogi ac yn grymuso Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i dwyn eu Prif Gwnstabl i gyfrif am gyflawni'r swyddogaethau hyn.

⁴ [Cynllun trechu trosedd - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

⁵ [Rhaid i ymateb yr heddlu i fyrgleriaeth, lladrad a lladrata wella - HMICFRS \(justiceinspectors.gov.uk\)](http://justiceinspectors.gov.uk)

14. Er bod yr SPR ond yn berthnasol i luoedd y Swyddfa Gartref yng Nghymru a Lloegr, mae llawer o'r bygythiadau a nodir yn yr SPR yn effeithio ar bob rhan o'r Deyrnas Unedig. Ni fwriedir i unrhyw beth yn yr SPR effeithio ar y trefniadau presennol ar gyfer darparu cydgymorth rhwng heddluoedd y DU, gan gynnwys rhai y tu allan i Gymru a Lloegr.⁶
15. Mae'r SPR ar gael i'w fabwysiadu gan heddluoedd nad ydynt yn ymwneud â'r Swyddfa Gartref yng Nghymru a Lloegr.⁷ Er mwyn wynebu heriau rhyngweithredu ar draws y DU, anogir heddluoedd eraill i ystyried y bygythiadau a aseswyd gan yr SPR i'r graddau y maent yn berthnasol i'w hawdurdodaethau.

Sicrwydd a Llywodraethu

16. Mae gan yr Ysgrifennydd Cartref ddyletswydd statudol i adeg y cyhoeddir y ddogfen, a'r galluoedd plismona cenedlaethol priodol sy'n ofynnol i wrthsefyll y bygythiadau hynny. Mae'r SPR hwn hefyd yn cynnwys canllawiau sy'n ymwneud â chanlyniadau, capasiti, safonau cenedlaethol, cydweithredu a gweithio mewn partneriaeth a fydd yn cefnogi plismona i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol yn eu hymateb i'r bygythiadau cenedlaethol. Prif Gwnstabiliaid a Chynghorau Heddlu a Throseddwy'r yng Nghymru a Lloegr sy'n gyfrifol am weithredu'r SPR.
17. Mae'n ofynnol i Gomisynwyr yr Heddlu a Throseddu ystyried yr SPR hwn wrth gyhoeddi neu amrywio eu cynlluniau heddlu a throseddu. Rhaid iddynt gadw'r cynllun heddlu throseddu dan adolygiad yng ngoleuni unrhyw newidiadau a wneir i'r SPR gan yr Ysgrifennydd Cartref. Rhaid i Brif Gwnstabiliaid ystyried y cynllun heddlu a throseddu a'r SPR wrth arfer eu swyddogaethau. Mae'r Comisynwyr yr Heddlu a Throseddu yn gyfrifol am eu dwyn i gyfrif am wneud hynny.⁸
18. Nid yw'n anghyffredin i ddeddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus "ystyried" canllawiau, codau ymarfer neu ddeunydd arall. Y disgwyl yw y dylai'r Comisiynwyr a'r

⁶ Fel y darperir ar ei gyfer yn adrannau 24 a 98 o Ddeddf yr Heddlu 1996.

⁷ Yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA), Heddlu Trafnidiaeth Prydain (BTP), y Gwnstabiliaeth Niwclear Sifil (CNC) a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn.

⁸ Mae dyletswydd statudol y Cyngor Cyffredin mewn perthynas â'r SPR yn nodi bod yn rhaid iddo roi sylw i'r SPR wrth gyhoeddi ei Gynllun Plismona. Mae'n rhaid i'r Cyngor Cyffredin hefyd fonitro perfformiad Heddlu Dinas Llundain wrth gyflawni'r Cynllun Plismona.

Prif Gwnstabiliaid ddilyn yr SPR oni bai eu bod yn fodlon, o dan yr amgylchiadau penodol, fod rhesymau da dros beidio â gwneud hynny.

Llywodraethu a Goruchwylio

19. Er mwyn sicrhau bod gan yr SPR le ystyrion yn y dirwedd blismona a'i bod yn cefnogi Comisynwyr yr Heddlu a Throseddau a Phrif Gwnstabiliaid i gynllunio'n effeithiol ar gyfer heriau plismona sy'n mynd y tu hwnt i ffiniau eu heddluoedd, mae angen ei angori mewn strwythurau llywodraethu priodol. Mae llywodraethu a goruchwylio hefyd yn sicrhau bod yr SPR yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan gynrychiolwyr o bob rhan o'r dirwedd blismona, ei fod wedi'i wreiddio a'i ddilyn gan blismona, a bod y Swyddfa Gartref yn gallu nodi newidiadau y gallai fod eu hangen, er enghraifft i fygythiadau neu alluoedd â blaenoriaeth, mewn adolygiadau o'r SPR yn y dyfodol.
20. Mae llywodraethu'r Bwrdd Plismona Cenedlaethol (NPB) yn sicrhau bod pob rhan o'r system blismona yn cydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i'r cyhoedd.⁹ Mae gan yr NPB, dan gadeiryddiaeth yr Ysgrifennydd Cartref, ddau is-fwrdd perthnasol, a chaiff y ddau eu cadeirio gan y Gweinidog Plismona:
- y **Bwrdd Perfformiad Troseddau a Phlismona** (CPPB) yw'r fforwm ar gyfer craffu ar berfformiad yn erbyn y Mesurau Trosedd a Phlismona Cenedlaethol. Mae'n galluogi Gweinidogion i osod fframwaith ar gyfer perfformiad y gall y cyrff statudol perthnasol ar y cyd, ac ar wahân, ddwyn y sector plismona i gyfrif; a
 - mae'r **Bwrdd Newid Strategol a Buddsoddi** (SCIB) yn darparu trosolwg a chraffu ar ystod o fuddsoddiadau cenedlaethol plismona a gorfodi'r gyfraith sy'n ariannu galluoedd allweddol, gan alluogi gweithredu blaenoriaethau'r llywodraeth o atal a lleihau troseddau, ac amddiffyn y cyhoedd.
21. Mae'r Ysgrifennydd Cartref wedi dirprwyo ystyriaeth flynyddol o'r SPR i'r SCIB y mae ei aelodaeth mewn sefyllfa dda i drafod ac asesu'r SPR. Bydd adroddiadau sicrwydd SPR blynyddol gan Gomisynwyr yr Heddlu a Throseddau (paragraff 24.1) yn cael eu hanfon at y Gweinidog Plismona fel cadeirydd y SCIB. Bydd hyn yn llywio trafodaeth flynyddol am yr SPR a sut mae'n cael ei ystyried wrth osod y cyfeiriad strategol a'r amcanion ar gyfer heddlu.

⁹ <https://www.gov.uk/government/groups/national-policing-board>

22. Nid yw'r mecanwaith sicrwydd hwn yn disodli'r prosesau goruchwylio presennol ar gyfer y bygythiadau a'r galluoedd a restrir yn yr SPR. Er enghraifft, mae Plismona Gwrthderfysgaeth yn parhau i gael ei gydlynu a'i ariannu'n genedlaethol trwy'r Pencadlys Plismona Gwrthderfysgaeth ac mae'n destun arolygiaeth weinidogol ar wahân.

Sicrwydd ac atebolrwydd

23. Mae gwreiddio'r SPR o fewn y dirwedd plismona a sicrhau bod ganddo rôl ystyrllon o ran cysylltu'r lleol â'r genedlaethol yn elfen hanfodol o fecanweithiau sicrwydd yr SPR. Mae'r mecanweithiau adolygu sy'n bodoli yn rhoi sicrwydd bod yr SPR yn cael ei ystyried yn briodol a bod cydymffurfio â'r ddyletswydd "ystyried". Mae'r mecanweithiau adolygu hyn wedi'u nodi isod:

23.1 Mae HMICFRS yn archwilio ac yn adrodd yn annibynnol ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a chyfreithlondeb perfformiad heddluoedd unigol trwy ei raglen PEEL ac, ar agweddau allweddol ar blismona trwy ei raglen o arolygiadau thematig. Yn flaenorol, mae HMICFRS wedi asesu pa mor dda y mae heddluoedd wedi'u darparu yn erbyn elfennau penodol o'r SPR yn ei arolygiadau PEEL (2018/19 yn fwyaf diweddar). Fodd bynnag, bydd cydymffurfiaeth yr heddlu â'r SPR diwygiedig, yn y dyfodol, yn cael ei ystyried yn thematig. Byddwn yn ymgysylltu â HMICFRS ar hyn wrth iddo ddatblygu ei raglenni arolygu.

23.2 Rhaid i Gomisynwyr yr Heddlu a Throseddau ddwyn Prif Gwnstabiailid i gyfrif am feddu ar, neu gael mynediad at, y galluoedd sydd wedi'u nodi yn y ddogfen hon fel rhai hanfodol i gynllunio ymateb effeithiol a chymesur i'r bygythiadau cenedlaethol. Mae'n ofynnol hefyd i Gomisynwyr yr Heddlu a Throseddau ystyried yr SPR eu hunain (paragraff 17) ac erbyn hyn mae trefniadau cryfach a chliriach ynghylch sut mae Comisynwyr yr Heddlu a Throseddau yn ffactor yn yr SPR wrth gyhoeddi neu amrywio eu cynlluniau heddlu a throseddau.

23.3 Mae gan Comisynwyr yr Heddlu a Throseddau y pŵer a'r ddyletswydd gyfreithiol i osod cyfeiriad strategol ac amcanion y heddlu trwy eu cynllun heddlu a throsedd y mae'n rhaid iddynt roi sylw i'r SPR. Mae gan Comisynwyr yr Heddlu a Throseddau hefyd y pŵer a'r ddyletswydd gyfreithiol i benderfynu ar y gyllideb, gan ddyrannu asedau ac arian i'r Prif Gwnstabil. Bydd canllawiau'n cael eu darparu gan yr APCC,

i gefnogi Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd i fanylu ar sut y maent wedi ystyried yr SPR yn eu cynllun heddlu a throsedd. Yn ymarferol, bydd hyn yn cwmpasu:

- a. yr angen i amlygu ddyletswydd y CSP i ystyried yr SPR yn y cynlluniau heddlu a throsedd;
- b. esboniad o beth yw'r SPR yn y cynlluniau heddlu a throsedd; ac
- c. esboniad o fewn yr heddlu a chynlluniau trosedd o sut mae'r CSP wedi ystyried yr SPR wrth osod y cyfeiriad strategol a'r amcanion ar gyfer y heddlu.

24. Gan fod yr SPR yn ddogfen a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref, mae angen mecanwaith sicrwydd rhwng y Swyddfa Gartref a Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd. Bydd hyn yn cynnwys dwy elfen:

24.1 Bydd y Comisiynwyr yn darparu datganiad sicrwydd blynyddol yn eu hadroddiadau blynyddol ar sut y maent wedi ystyried yr SPR a sut y mae wedi dylanwadu ar eu cyfeiriad strategol a'u hamcanion ar gyfer eu heddlu. Darperir canllawiau i gefnogi Gomisiynwyr i ddrafftio'r datganiadau hyn.

24.2 Bydd yr APCC yn darparu crynodeb blynyddol o'r datganiadau sicrwydd i'r Gweinidog Plismona. Bydd hyn yn llywio trafodaeth flynyddol yn y SCIB.

25. Mae darpariaethau yn Neddf yr Heddlu 1996 yn mynnu bod yn rhaid i'r Ysgrifennydd Cartref, o "dro i dro", gyhoeddi SPR ac, wrth wneud hynny, gael cyngor y cyfryw bersonau y mae'n ymddangos i'r Ysgrifennydd Cartref eu bod yn cynrychioli barn prif swyddogion yr heddlu a chyrff plismona lleol (paragraff 5). Daeth adolygiad SPR i'r casgliad bod angen adolygu'r SPR a'i gyhoeddi'n amlach gan fod y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn teimlo bod yr amser a aeth heibio ers y diwygiad diwethaf yn 2015 wedi bod yn rhy hir. Mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo i ailymweld â'r SPR eto o fewn dwy flynedd i'w gyhoeddi i sicrhau ei fod yn parhau newid bygythiadau a blaenoriaethau yn y dirwedd blismona. Bydd yr SPR hefyd yn cael ei adolygu o leiaf bob dwy flynedd wedi hynny i sicrhau ei fod yn parhau'n gyfredol.

Yr Ymateb Plismona

Trais yn Erbyn Menywod a Merched

Mae'r term trais yn erbyn menywod a merched yn cyfeirio at weithredoedd o drais neu gamdriniaeth sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. Mae troseddau ac ymddygiad a gwmpesir gan y term hwn yn cynnwys trais rhywiol a throseddau rhywiol eraill, cam-drin domestig, stelcian, cam-drin 'anrhydedd' (gan gynnwys anffurfio organau cenedlu benywod, priodas dan orfod, a lladd 'anrhydedd'), yn ogystal â llawer o rai eraill, gan gynnwys troseddau a gyflawnwyd ar-lein. Tra bod y term 'trais yn erbyn menywod a merched' yn cael ei ddefnyddio mae hyn yn cyfeirio at bob dioddefwyr unrhyw un o'r troseddau hyn.¹⁰

Cyflwyniad

26. Cyhoeddodd y Llywodraeth Strategaeth i fynd i'r afael â Thrais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG) ym mis Gorffennaf 2021, a Chynllun Mynd i'r Afael â Chan-drin Domestig cyflenwol ym mis Mawrth 2022¹¹. Mae'r Strategaeth a'r Cynllun yn nodi camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i wneud diogelwch menywod a merched ledled y wlad yn flaenoriaeth. Eu thema yw atal y troseddau hyn, gwella profiadau dioddefwyr a goroeswyr, sicrhau bod cyflawnwyr yn cael eu dwyn gerbron y llys, a gwella'r ffordd y mae gwahanol sefydliadau, gan gynnwys asiantaethau statudol, yn cydweithio i fynd i'r afael â VAWG.

27. Noddodd arolygiad HMICFRS ar ymateb yr heddlu i VAWG fod angen gweithredu traws-system ar unwaith i ymateb gyda "chyflymder a mwy o frys i'r hyn y mae HMICFRS yn ei ystyried yn epidemig o droseddu yn erbyn menywod a merched". Amlinellodd yr adroddiad 15 o argymhellion i gryfhau gweithio aml-asiantaeth; sicrhau atebolrwydd; gwella gallu a deall; a sicrhau gwell cefnogaeth i ddioddefwyr. Ymhelaethodd yr adroddiad terfynol dilynol, a gyhoeddwyd ym mis Medi 2021, ar hyn ac mae'n darparu 20 o argymhellion ar draws y pum argymhelliad cyffredinol canlynol:

¹⁰ [Strategaeth mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk), tud.8.

¹¹ [Cynllun Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

- Dylai fod ymrwymiad uniongyrchol a diamwys bod yr ymateb i droseddau VAWG yn flaenoriaeth lwyr i lywodraeth, plismona, y system cyfiawnder troseddol, a phartneriaethau sector cyhoeddus.
- Dylai mynd ar drywydd ac amharu'n ddi-baid ar droseddwyr sy'n oedolion fod yn flaenoriaeth genedlaethol i'r heddlu, a dylid gwella eu gallu a'u capasiti i wneud hyn.
- Dylid rhoi strwythurau a chyllid ar waith i sicrhau bod dioddefwyr yn cael cymorth cyson wedi'i deilwra.
- Dylai pob prif gwnstabl adolygu ar unwaith a sicrhau bod safonau cyson uchel yn ymatebion eu heddluoedd i drais yn erbyn menywod a merched a dylid eu cefnogi wrth wneud hynny gan safonau a data cenedlaethol.
- Dylid cynnal adolygiad ar unwaith o'r defnydd o ganlyniadau 15 ac 16 mewn troseddau trais yn erbyn menywod a merched.

28. Cefnogodd y Llywodraeth, NPCC a'r Coleg Plismonaholl argymhellion yr arolygiaeth, gan gynnwys yr argymhelliad ar gyfer Arweinydd Plismona Cenedlaethol, llawn amser, newydd ar VAWG ac maent yn ariannu'r swydd hon.

29. Yn ogystal, mae cryn dipyn o waith yn cael ei wneud gan y Llywodraeth a phlismona yn dilyn cyhoeddi "Plismona trais yn erbyn menywod a merched - Fframwaith cenedlaethol ar gyfer cyflawni: Blwyddyn 1¹²" y Coleg Plismona ac NPCC a'r cynnydd "blwyddyn yn ddiweddarach" a gyhoeddwyd ym mis Medi 2022.¹³

Canlyniadau

30. Mae fframwaith cyflawni'r Coleg Plismona a'r NPCC yn amlinellu uchelgais plismona i sicrhau gwahaniaeth amlwg a pharhaus yn agweddau ac arferion yr heddlu wrth ymateb i VAWG, trwy dri amcan troswaol:

- a. gwella ymddiriedaeth a hyder mewn plismona;
- b. mynd ar drywydd cyflawnwyr yn ddi-baid; a
- c. chreu mannau mwy diogel.

¹² Cyhoeddiad y Coleg Plismona a'r NPCC dyddiedig Rhagfyr 2021: [Plismona trais yn erbyn menywod a merched - Fframwaith cyflawni cenedlaethol: Blwyddyn 1 \(npcc.police.uk\)](https://www.npcc.police.uk/news/2021/12/plismona-trais-yn-erbyn-menywod-a-merched-fframwaith-cyflawni-cenedlaethol-blwyddyn-1)

¹³ Cyhoeddiad y Coleg Plismona a'r NPCC dyddiedig Medi 2022: [Plismona trais yn erbyn menywod a merched - flwyddyn yn ddiweddarach: Adroddiad Cynnydd \(npcc.police.uk\)](https://www.npcc.police.uk/news/2022/01/plismona-trais-yn-erbyn-menywod-a-merched-flwyddyn-yn-ddiweddarach-adroddiad-cynnydd)

31. Mae'r fframwaith cyflawni ar gyfer heddluoedd i'w ddefnyddio ac mae disgwyl i bob heddlu fod wedi datblygu cynlluniau gweithredu lleol yn nodi eu gweithgaredd yn erbyn y fframwaith.
32. Wrth ymateb i VAWG, mae disgwyl i bob heddlu ddilyn yr Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig perthnasol (APP) a nodir gan y Coleg Plismona ac sydd i'w gweld ar wefan y Coleg Plismona¹⁴. Mae'r adran galluoedd isod yn darparu crynodeb o'r gallu arbenigol sy'n arbennig o berthnasol i VAWG (ac wedi'i alinio â'r APP). Er bod llawer iawn o waith ar y gweill i gryfhau'r ymateb VAWG, dylid deall y galluoedd a restrir fel y gofyniad sylfaenol i heddluoedd eu rhoi ar waith. Mae'r galluoedd a nodir o fewn adran CSA y ddogfen hon (paragraff 106 ymlaen) hefyd yn berthnasol.
33. Gan gydnabod bod lles swyddogion a staff yr heddlu yn bwysig, ynunol â'r ddyletswydd gofal a roddir ar brif swyddogion¹⁵, rhaid i bob heddlu gael asesiadau risg, polisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod y ddyletswydd i ystyried diogelwch a lles staff yn berthnasol cael ei gyflawni yn ogystal ag adeiladu gwydnwch a'r risg o ddadsensiteiddio wedi'i leihau. Maegan bod heddlu fynediad at, a dylent ddefnyddio, cymorth a chynghor a gynigir gan Wasanaeth Cenedlaethol Lles yr Heddlu (NPWS), Oscar Kilo¹⁶, neu bod ganddynt ddarpariaeth gwasanaeth llesiant amgen sydd o leiaf mor gynhwysfawr.

Galluoedd

Swyddogion a staff hyfforddedig

34. Dylai heddluoedd gadw'r gallu i ymateb i holl droseddau VAWG gan gynnwys drwy gael swyddogion a staff sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.¹⁷ Ochr yn ochr ag unrhyw

¹⁴ [AP y Coleg Plismona](#)

¹⁵ Mae gan Brif Gwnstabiliaid gyfrifoldeb statudol yn Neddf yr Heddlu (Iechyd a Diogelwch) 1997, i reoli lles eu swyddogion a'u staff, a rôl Comisiynwyr Heddlu a Throsedd etholedig o hyd yw sicrhau eu bod yn cael eu dwyn i gyfrif.

¹⁶ [Ynglŷn ag Oscar Kilo - Gwasanaeth Llesiant Cenedlaethol yr Heddlu • Oscar Kilo](#)

¹⁷ Mae gan heddluoedd ddisgresiwn o ran sut y maent yn dyrannu a defnyddio swyddogion sy'n gweithio ar VAWG, ac mae ymarfer yn amrywio rhwng heddluoedd. Fodd bynnag, ar gyfer heddluoedd cam-drin domestig, dylai fod gan heddluoedd, o leiaf, gorff o swyddogion arbenigol sy'n gyfarwydd â deinameg cam-drin domestig ac â gwybodaeth leol am ddiodefnyddwyr mynych a chyflawnwyr cyfresol, y gellir galw arnynt i gefnogi ymatebwyr cyntaf ac ymchwilwyr sylfaenol eraill. Dylent hefyd gael goruchwylwyr arbenigol sydd â trosolwg o gam-drin domestig yn ardal eu heddlu. Gweld: [Rôl arbenigwyr cam-drin domestig \(college.police.uk\)](#)

gamau priodol eraill, ac yng nghyd-destun blaenoriaethau lleol, dylai swyddogion a staff allu asesu i ba raddau y mae angen:

- a. iddynt gynnal ymchwiliadau cymhleth ac amlochrhog i nodi cyflawnwyr, casglu'r holl dystiolaeth sydd ar gael yn brydlon ac ystyried y patrwmymddygiad ehangach, ei gyd-destun a phan fo digwyddiad unigol yn rhan o batrwm ehangach o ymddygiad, a'i effaith gronol;
- b. iddynt gael mynediad at arbenigwyr fforensig digidol (gweler Galluoedd Trawsbynciol, paragraffau 144 i 175) i gael, dadansoddi a defnyddio tystiolaeth ddigidol mewn ymchwiliadau neu achosion troseddol;
- c. gwneud defnydd o'r fframwaith deddfwriaethol presennol, gan gynnwys ystyried defnyddio gorchmynion sifil ataliol (gan gynnwys gorchmynion dros dro), i ddiogelu dioddefwyr ac ymyrryd yn gynnar¹⁸. Mae hyn yn cynnwys ystyried a all unrhyw un o'r canlynol fod yn briodol: gorchmynion diogelu megis gorchmynion risg rhywiol, gorchmynion atal niwed rhywiol, hysbysiadau amddiffyn trais domestig, gorchmynion amddiffyn domestig, gorchmynion amddiffyn rhag stelcian, gorchmynion amddiffyn anffurfio organau cenhedlu benywod, gorchmynion amddiffyn rhag priodas dan orfod, a ph'un ai a sut y gellid cymhwyso'r cynllun datgelu trais domestig, a elwir hefyd yn "Ddeddf Clare";
- d. ymchwilio i dorri gorchmynion sifil, gan wneud defnydd llawn o'r ystod o offer sydd ar gael, i reoli risg ac i leihau niwed;
- e. monitro a rheoli troseddwr rhyw cofrestredig a throreddwyr perthnasol eraill¹⁹ er enghraifft drwy lunio adroddiadau cudd-wybodaeth am modus operandi, patrymau troseddu ac ymddygiad arall a chysylltiadau'r troseddwr, sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu ar draws asiantaethau fel y bo'n briodol, ac ymchwilio i unrhyw

¹⁸ Mae addasrwydd gorchymyn penodol yn dibynnu ar natur y risg a achosir gan y troseddwr unigol a'r amgylchiadau dan sylw. Gweler: [Gorchmynion llys a hysbysiadau \(college.police.uk\)](http://college.police.uk).

¹⁹ [Canllawiau ar Ran 2 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk); [Rheoli troseddwr rhyw a throreddwyr treisgar \(college.police.uk\)](http://college.police.uk). Mae'r ffordd y mae heddluoedd yn ffurfweddu ac yn staffio eu swyddogaethau mewn perthynas â rheoli troseddwr rhyw a throreddwyr treisgar yn amrywio

achosion o dorri gofynion hysbysu, gan ddefnyddio y trefniadau diogelu'r cyhoedd aml-asiantaeth priodol (MAPPA) ac yn unol â chanllawiau MAPPA;²⁰

- f. casglu, asesu a chofnodi cymaint o dystiolaeth sydd ar gael â phosibl ar droseddu rhywiol yn ardal eu heddlu, i greu darlun cudd-wybodaeth fanwl;
- g. gweithio gyda phartneriaid i nodi maint a natur yr arfer o gam-drin 'ar sail anrhydedd' o fewn ardal eu heddlu;
- h. cychwyn trefniadau cynllunio diogelwch a diogelu mewn achosion o gam-drin domestig;
- i. cydweithio â thimau plismona cymdogaeth, neu'r hyn sy'n cyfateb yn lleol, wrth reoli VAWG ac ystyried defnyddio cynlluniau gwyllo'r heddlu i ddarparu presenoldeb heddlu gweladwy;
- j. bod yn ymwybodol o ddioddefwyr arbennig o agored i niwed a chyflawnwyr risg uwch yn eu hardal (yn arbennig o berthnasol i dimau plismona lleol, gan gynnwys swyddogion ymateb a chymdogaeth);
- k. cyrchu a gwneud defnydd o ddeunyddiau sy'n ymwneud ag ymchwilio i drais rhywiol a throseddau rhywiol sydd ar gael ar y Ganolfan Wybodaeth i sicrhau bod dull yr heddlu yn cael ei lywio gan arfer gorau;
- l. darparu un pwynt cyswllt i ddioddefwyr, gan gymryd agwedd sensitif, i'w hysbysu am benderfyniadau ac o'u hawliau, yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Dioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr²¹;
- m. cyrchu a gwneud defnydd o adnodd deunyddiau dysgu cefnogol ²² y Coleg Plismona i fynd i'r afael â bregusrwydd, trais a chamdriniaeth ac i reoli'r risg a berir gan gyflawnwyr ar draws yr ystod lawn o droseddau VAWG.

²⁰ [Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd \(MAPPA\): Canllawiau - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

²¹ [Y Cod Ymarfer i Ddioddefwyr Troseddau yng Nghymru a Lloegr a deunyddiau gwyllo'r heddlu i ddarparu presenoldeb heddlu gweladwy - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

²² [Trais yn erbyn menywod: Adnoddau ar gyfer plismona | Coleg Plismona](https://www.gov.uk)

Cysylltedd â phartneriaid

35. Er mwyn sicrhau ymateb effeithiol, system gyfan i bob math o VAWG, dylai Prif Gwnstabiliaid sicrhau bod eu heddlu yn gweithio gyda'r holl bartneriaid perthnasol i ddiogelu menywod a merched rhag niwed. Mae hyn yn cynnwys ystyried y canllawiau amlasiantaethol perthnasol fel y bo'n briodol, a chydweithio. Er enghraifft, y Datganiad Disgwyliadau Cenedlaethol VAWG²³, y canllawiau ar gyfer priodas dan orfod²⁴ a Chynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol (RASSO) yr Heddlu-CPS 2021²⁵ sydd yn nodi sut y bydd yr heddlu a'r CPS yn gweithio gyda'i gilydd i wella'r ymateb ar y cyd i'r troseddau hyn dros y tair blynedd nesaf. Er bod plismona wedi'i gadw yng Nghymru, gall y strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)²⁶, sy'n gosod yr agenda i Lywodraeth Cymru a'r asiantaethau y mae'n eu cyfarwyddo a'u hariannu, fod yn berthnasol hefyd. Rydym wedi cyhoeddi canllawiau statudol cam-drin domestig i gefnogi sefydliadau i ddeall y diffiniad cyfreithiol o gam-drin domestig a llywio'r ymateb i gam-drin domestig²⁷. Bydd y cydweithio hwn yn helpu i sicrhau bod plismona'n cyfrannu at adeiladu dull system gyfan cyfach, sydd ei angen i fynd i'r afael â VAWG yn effeithiol. Dylai heddluoedd:
- gydweithio'n effeithiol â Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS), gan gynnwys ceisio cyngor cynnar, cynnal ymchwiliadau wedi'u harwain gan dystiolaeth a sicrhau craffu ar achosion lle y cymerir penderfyniadau 'dim camau pellach';
 - rhannu gwybodaeth a chudd-wybodaeth gydag asiantaethau a heddluoedd eraill i ganfod a nodi risg ac unigolion sy'n peri pryder. Er enghraifft, dylai heddluoedd rannu gwybodaeth am yr achosion cam-drin domestig risg uchaf gyda phartneriaid mewn cynadleddau asesu risg aml-asiantaeth (MARAC)²⁸ i amlinellu risg a nodi

²³ [Comisiynu gwasanaethau i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk/government/consultations/vawg-2022-2026)

²⁴ [Canllawiau statudol aml-asiantaeth ar gyfer delio â phriodasau dan orfod a chanllawiau arfer aml-asiantaeth sy'n ymdrin ag achosion o briodas dan orfod](#)

²⁵ [Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar y Cyd rhwng yr Heddlu a'r CPS RASSO \(Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol\) 2021 | Gwasanaeth Erlyn y Goron](#)

²⁶ <https://www.gov.wales/violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-strategy-2022-2026.html>

²⁷ [Canllawiau Statudol Cam-drin Domestig \(publishing.service.gov.uk\)](https://publishing.service.gov.uk/government/publications/canllawiau-statudol-cam-drin-domestig)

²⁸ Mae MARAC yn gyfarfod lle mae gwybodaeth am yr achosion cam-drin domestig risg uchaf yn cael ei rhannu rhwng cynrychiolwyr yr heddlu lleol, gwasanaethau prawf, ieuchyd, amddiffyn plant, ymarferwyr tai,

opsiynau i gefnogi datblygiad cynllun gweithredu cydgysylltiedig i wella diogelwch y dioddefwr;

- c. cydweithio â Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs) i asesu lefel y risg ac i ddatblygu cynlluniau diogelwch i sicrhau diogelwch dioddefwyr cam-drin domestig;
- d. cydweithio â Chynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs) yn eu gwaith i sicrhau bod cymorth a diogelwch y dioddefwr yn cael ei gydlynu ar draws yr holl asiantaethau a gwasanaethau hanfodol. Dylai hyn gynnwys cydweithio ar greu cynlluniau cyfathrebu ar gyfer ymgysylltu â dioddefwyr trais rhywiol a throseddau rhywiol.

Terfysgaeth

Terfysgaeth yw'r defnydd o, neu fygwth, gweithredu sy'n achosi trais difrifol yn erbyn person, niwed difrifol i eiddo, yn peryglu bywyd person (ac eithrio'r sawl sy'n cyflawni'r weithred), sy'n creu risg difrifol i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, a/neu wedi'i gynllunio i ymyrryd yn ddifrifol â system electronig neu amharu'n ddifrifol arni lle mae'r defnydd hwnnw o fygythiad wedi'i gynllunio i ddylanwadu ar y llywodraeth neu sefydliad llywodraethol rhyngwladol, neu i ddychryn y cyhoedd neu garfan o'r cyhoedd ac yn cael ei wneud at y diben o hyrwyddo achos gwleidyddol, ideolegol, hiliol neu grefyddol. Gallai'r weithred hon gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, weithgarwch a gyflawnir gan ddefnyddio ffrwydron, drylliau, cerbydau fel arf, dyfeisiau soffistigeiddrwydd isel (megis arfau llafnog), ac arfau cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear (CBRN) gan grwpiau rhyngwladol a domestig neu unigolion.

Canlyniadau

36. Mae gan heddluoedd ran sylweddol a hollbwysig i'w chwarae yn yr ymateb gwrthderfysgaeth cenedlaethol. CONTEST yw'r fframwaith sy'n trefnu'r gwaith i wrthsefyll pob math o derfysgaeth.²⁹ Ei nod yw lleihau'r risg o derfysgaeth i'r DU, ei dinasyddion a'i buddiannau dramor. Mae CONTEST yn parhau i fod yn strategaeth agnostig ideolegol, sy'n ddigon ystwyth i addasu i bob math o derfysgaeth. Terfysgaeth Islamaidd yw'r bygythiad mwyaf o hyd, gan gyfrif am dri chwarter gwaith achos MI5 a Phlisma CT. Mae'r bygythiad gan derfysgaeth yn parhau ac yn esblygu. Ers dechrau 2017, mae MI5 a'r heddlu gyda'i gilydd wedi tarfu ar 37 o leiniau ymosod cam hwyr.
37. Dylai heddluoedd allu dangos eu bod yn gallu ymateb i fygythiadau terfysgol yn unol â CONTEST, gan weithio i gefnogi Plisma Gwrthderfysgaeth a chyda phartneriaid i ddarparu'r ymateb hwnnw o fewn y pedair ffrwd waith ganlynol:
- **Ymlid:** i atal ymosodiadau terfysgol rhag digwydd yn y DU a thramor. Mae hyn yn golygu defnyddio ystod o offer i darfu ar y rhai sy'n dymuno cymryd rhan mewn

²⁹https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/716907/140618_CCS207_CCS0218929798-1_CONTEST_3.0_WEB.pdf

gweithgaredd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth ac i wrthsefyll y bygythiad gan bobl sy'n teithio at ddibenion sy'n gysylltiedig â therfysgaeth.

- **Atal:** i atal pobl rhag dod yn derfysgwyr neu'n cefnogi terfysgaeth. Trwy Prevent, gellir diogelu a chefnogi unigolion agored i niwed sydd mewn perygl o gael eu radicaleiddio, tra hefyd yn galluogi'r rhai sydd eisoes yn ymwneud â therfysgaeth i ymddieithrio ac ailsefydlu.
- **Gwarchod:** cryfhau amddiffyniad yn erbyn ymosodiad terfysgol yn y DU.
- **Paratoi:** i liniaru effaith digwyddiad terfysgol os yw'n digwydd. Mae hyn yn cynnwys gweithio i ddod ag ymosodiad terfysgol i ben ac i gynyddu gwytnwch i ddod dros ei ganlyniadau.

38. Er nad yw polisi Gwrthderfysgaeth wedi ei ddatganoli, mae llawer ohono yn cael ei ddarparu drwy feysydd a swyddogaethau datganoledig, yn enwedig mewn perthynas ag awdurdodau lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Mae strwythurau CONTEST Cymru FELLY yn adlewyrchu rôl Llywodraeth Cymru sydd ag awdurdod datganoledig yng Nghymru gyda throsolwg strategol trwy CONTEST Cymru a gadeirir ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a heddlu Cymru.

Galluoedd

39. Mae llawer o gyfraniad yr heddlu at wrthderfysgaeth yn digwydd drwy'r rhwydwaith Plismona Gwrthderfysgaeth. Mae gwaith gwrthderfysgaeth yr heddlu yn gwrthweithio'r sbectrwm llawn o fathau o derfysgaeth, bygythiadau gan y wladwriaeth ac ysbïo, yn darparu gwrth-amlhau, yn ymchwilio i dorri'r Ddeddf Cyfrinachau Swyddogol ac yn ymchwilio i Droseddau Rhyfel. Mae gwaith Plismona Gwrthderfysgaeth yn adlewyrchu cydweithrediad agos ag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys cymuned cudd-wybodaeth y DU, y sector preifat, partneriaid lleol a rhyngwladol yn ogystal â'r gymuned leol (gweler "Cysylltedd â phartneriaid" isod, paragraff 51).

40. Plismona Gwrthderfysgaeth yw'r prif fodd o amharu ar weithgarwch sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn y DU ac mae'n arwain cyfraniad yr heddlu i CONTEST ar draws Atal, Ymlid, Diogelu a Pharatoi. Mae'n cynnwys rhwydwaith o unedau gweithredol wedi'u lleoli'n rhanbarthol ledled y DU, sy'n darparu galluoedd gwrthderfysgaeth arbenigol a galluoedd agnostig bygythiadau ar ran heddluoedd. Mae'r galluoedd hyn yn cynnwys:

- 40.1. casglu a datblygu cudd-wybodaeth, gweithio ar y cyd ag MI5 i gynnal ymchwiliadau gwrthderfysgaeth ac amharu ar weithgarwch terfysgol drwy arestiadau ac, mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Erynn y Goron (CPS), erlyniadau (Ymlid);
- 40.2. gwneud defnydd o'r holl offer a phwerau sydd ar gael i darfu ar y rhai sy'n ymwneud â gweithgarwedd sy'n gysylltiedig â therfysgaeth a chyfyngu ar eu gallu i gyflawni gweithredoedd terfysgol, gan gynnwys rheolaeth ddyddiol ar bynciau sy'n destun mesurau o dan Ddeddf Mesurau Atal ac Ymchwilio i Derfysgaeth (TPIM) (Ymlid);
- 40.3. gweithio gyda heddluoedd a phartneriaid lleol i adnabod a diogelu unigolion a chymunedau sy'n agored i gael eu radicaleiddio, gan eu cefnogi wrth gyflawni eu dyletswydd statudol o dan Prevent. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso sgiliau a phwerau i asesu, rheoli ac amharu ar unigolion sy'n peri risg o radicaleiddio a nodi niwed ar-lein, gweithio gyda chwmnïau cyfryngau cymdeithasol i dynnu deunydd radicaleiddio o'r rhyngwrdd. Mae hyn yn cynnwys amharu ar y rhai sy'n ceisio radicaleiddio (Prevent);
- 40.4. darparu arweiniad, cyngor, hyfforddiant a diogelwch i'r cyhoedd, lleoedd, a diogelwch ar ggyfer y teulu breninol a phobl bwysig. Mae'r Swyddfa Diogelwch Gwrthderfysgaeth Genedlaethol (NaCTSO) yn gyfrifol am ddatblygu canllawiau penodol, cynhyrchion hyfforddi a chyfathrebu, a chefnogi Cynghorwyr Diogelwch Gwrthderfysgaeth (CTSAs) sy'n darparu cyngor diogelwch, arweiniad, hyfforddiant a chymorth arall i sefydliadau, sectorau, a safleoedd yn y sector preifat a chyhoeddus. Mae Plismona Ffiniau Gwrthderfysgaeth hefyd yn nodi unigolion o ddiddordeb wrth iddynt deithio, i mewn ac allan, trwy borthladdoedd (Protect);
- 40.5. darparu Swyddogion Arfau Saethu Gwrthderfysgaeth Arbenigol (gweler Plismona Arfog yn yr adran Galluoedd Trawsbynciol, paragraffau 148 i 149) a chanllawiau i holl ymatebwyr yr heddlu i ymosodiadau terfysgol ysbeiliedig (MTAs) (Paratoi);
- 40.6. darparu canllawiau cyngor, ac offer Cemegol, Biolegol, Radiolegol a Niwclear (CBRN), (Paratoi); a
- 40.7. cynnal a chefnogi ymarfer gwrthderfysgaeth ar draws y rhwydwaith i ysgogi datblygiad gweithredol trwy ddysgu sefydliadol wedi'i fewnosod. Mae Plismona Gwrthderfysgaeth yn gweithio gyda'r holl heddluoedd i sicrhau bod eu cynlluniau ar

gyfer cyflawni gweithrediadau ehangach penodol sy'n berthnasol i wrthderfysgaeth yn cael eu hadolygu a'u cynnal yn rheolaidd. Er mwyn gwreiddio a datblygu dysgu sefydliadol pellach mae Plismona Gwrthderfysgaeth yn ymgymryd â phortffolio blynyddol o ymarfer, profi a hyfforddiant gwrthderfysgaeth (Paratoi).

41. Er mai Plismona Gwrthderfysgaeth yw'r prif fodd o darfu ar fygythiadau terfysgol, mae gan alluoedd a gynhelir yn lleol hefyd ran bwysig i'w chwarae mewn gwrthderfysgaeth. Dylai'r Prif Gwnstabiliaid fod yn sicr bod eu heddlu:

41.1. yn cynnal galluoedd Ymlid perthnasol gan gynnwys:

a. y gallu i gasglu a dadansoddi cyfathrebiadau terfysgol a'u defnydd o gyfryngau digidol i ganfod, atal ac ymchwilio i fygythiadau;

41.2. yn cynnal galluoedd Prevent gan gynnwys:

- a. y gallu i gasglu ac asesu'r holl atgyfeiriadau Prevent a dderbyniwyd i benderfynu a oes bregusrwydd gwrthderfysgaeth, ac yna symud achosion ymlaen yn briodol i'r cymorth cywir (e.e. panel Channel, partneriaethau dan arweiniad yr Heddlu ac ati); ac
- b. Arweinydd Prevent o gefnogi'r gwaith o gyflwyno Channel, gan gynnwys mewnbynnu gwybodaeth berthnasol i'r System Gwybodaeth Rheoli Achos (CMIS) a ddefnyddir i reoli a chefnogi unigolion mewn perygl o gael eu denu i derfysgaeth

41.3. yn cynnal galluoedd Diogelu perthnasol gan gynnwys:

- a. Cydlynwyr Diogelwch (SecCOs) sydd wedi'u hyfforddi i ddarparu cyngor ar bob agwedd ar ddiogelwch gweithrediadau ar gyfer unrhyw ddigwyddiad, ac ar gyfer cynllunio gweithredol, cydgysylltu a chychwyn gwrth-fesurau i'w gyflwyno'n ddiogel ac yn effeithiol. Gall SecCOs hefyd dynnu ar dimau chwilio arbenigol a chymorth drylliau;
- b. Swyddogion Cynllunio i Atal Trosedd (DOCO) sy'n darparu cyngor, arweiniad ac asesiadau i awdurdodau lleol a sefydliadau ar fesurau i leihau trosedd. Dylent hyrwyddo mesurau lleihau trosedd cyffredinol sydd o fudd i wrthderfysgaeth a gweithio mewn partneriaeth agos â CTSA's rhanbarthol i ymgysylltu â busnesau a sefydliadau perthnasol. Gallant hefyd ddarparu

cymorth mewn achosion lle byddai adeiladau neu adnewyddu adeiladau preifat a chyhoeddus yn elwa ar gyngor diogelwch amddiffynnol;

- c. Swyddogion Project SERVATOR, lle maent wedi'u hyfforddi a'u defnyddio, sydd â'r dasg o gynnal gosodiadau tra gweladwy ac anrhagweladwy. Maent yn defnyddio ystod o dactegau i darfu ar weithgarwch troseddol, gan gynnwys terfysgaeth ond heb fod yn gyfyngedig iddo, tra'n darparu presenoldeb cysurlon i'r cyhoedd;
- d. mynediad at Gŵn Canfod Ffrwydron, naill ai o fewn yr heddlu neu drwy gydweithio, i ganfod camddefnydd terfysgol a throeddol o ffrwydron mewn safleoedd eiconig a digwyddiadau lleol a chenedlaethol;³⁰ a
- e. galluoedd patrolio arferol i ddarparu cudd-wybodaeth, ataliaeth a gallu canfod gallu at ddibenion gwrthderfysgaeth, a bygythiadau eraill neu weithgarwch troseddol.

41.4. yn cynnal galluoedd Paratoi perthnasol gan gynnwys:

- a. cynlluniau a arferir yn rheolaidd ar gyfer gweithrediadau gwrthderfysgaeth. Mae gan ymatebwyr Categori 1, o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, ddyletswydd i greu a chynnal cynlluniau ymateb priodol ac arfer y cynlluniau hynny (gweler adran Argyfyngau Sifil o dan y pennawd "Canlyniadau);
- b. galluoedd plismona arfog ar ffurf Cerbydau Ymateb Arfog (ARVs) y gellir eu defnyddio ar unwaith (gweler paragraffau 151 a 152), sy'n bnodloni safonau gallu ac adnoddau cenedlaethol; a
- c. Gallu Cemegol, Biolegol, Radiolegol, a Niwclear (CBRN) i ymateb i ddigwyddiadau CBRN, gan gynnwys ymateb i ddigwyddiadau mawr a rheoli canlyniadau.

42. Mae Canghennau Arbennig ar lefel yr heddlu yn rhan hanfodol o ymateb plismona i fygythiadau diogelwch cenedlaethol. Mewn rhai rhanbarthau, roedd gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol gan Dimau Cangen Arbennig dan arweiniad yr heddlu wedi'u hintegreiddio'n llawn i strwythurau gweithredu Plismona Gwrthderfysgaeth rhanbarthol. Mewn rhanbarthau eraill, roedd timau Cangen Arbennig yn cael eu rheoli'n rhanbarthol neu'n lleol, gan weithio'n agos gyda'r Uned Plismona

³⁰ Mae galluoedd ffrwydron ychwanegol, megis Gwaredu Ordnans Ffrwydron (EOD), yn cael eui darparu gan EODs milwrol yng Nghymru a Lloegr, ac eithrio yn Llundain lle mae'r gallu yn cael ei ddarparu gan orchymyn gwrthderfysgaeth SO15 o fewn y Gwasanaeth Heddlu Llundain.

Gwrthderfysgaeth ranbarthol. Ym mis Ebrill 2022, trosglwyddwyd cyllid ar gyfer swyddogaethau Cangen Arbennig allan o Brif Grant yr Heddlu i'r Grant Plismona Gwrthderfysgaeth. Bydd hyn yn helpu i ddiogelu asedau gwrthderfysgaeth lleol tra'n rhoi mwy o fynediad i heddluoedd at arbenigedd ac adnoddau arbenigol pan fydd eu hangen arnynt, yn ogystal â sbarduno effeithlonrwydd, cysondeb a gwell effeithiolrwydd.

43. Mae Canghennau Arbennig yn darparu galluedd i:

- a. rheoli cudd-wybodaeth a gweithrediadau, gan gynnwys ymdrin â ffynonellau cudd-wybodaeth dynol (CHIS);
- b. arwain ymchwiliadau ar lefel leol a rhoi cymorth i ymchwiliadau lefel ranbarthol a chenedlaethol; a
- c. cyflawni rôl ddiogelu i gefnogi ymdrechion lleol i atal unigolion rhag cymryd rhan mewn terfysgaeth ac eithafiaeth.

Gofynion capasiti

44. Asesir y bygythiad i'r DU gan derfysgaeth gan y Gyd-Ganolfan Dadansoddi Terfysgaeth (JTAC) sy'n dadansoddi ac yn asesu'r holl gudd-wybodaeth sy'n ymwneud â therfysgaeth ryngwladol, gartref neu dramor. Amlygir bygythiadau hefyd drwy'r Asesiad Risg Diogelwch Cenedlaethol (NSRA) a ddefnyddir i helpu i lywio'r gwaith o flaenoriaethu a pharodrwydd ar gyfer argyfyngau sifil.

45. Mae canlyniadau argyfyngau a'u graddfa, eu hyd a'u maint credadwy mwyaf yn cael eu diffinio mewn Tybiaethau Cynllunio Gwydnwch Cenedlaethol (NRPAs). Mae'r rhagdybiaethau hyn yn llywio gwaith y Rhaglen Galluedd Gwydnwch Cenedlaethol traws-lywodraethol sy'n cydgysylltu gwaith i feithrin a chynnal gallu i ymateb i ganlyniadau cyffredin argyfyngau.

46. Yn seiliedig ar asesiadau bygythiad JTAC, mae'n ofynnol i'r NSRA a NRPAs, Prif Gwnstabiliaid, ynghyd ag arweinydd bygythiadau priodol yr NPCC, ystyried bygythiadau a risgiau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wrth benderfynu ar eu gallu a'u capasiti lleol i liniaru'r bygythiadau a'r risgiau hynny. Dylai'r Prif Gwnstabiliaid hefyd ystyried sut y bydd eu heddlu, pan fo angen, yn cyfrannu galluedd i gefnogi ymateb plismona cenedlaethol.

Cysondeb a safonau

47. Mae Pwyllgor Cydlynu Gwrthderfysgaeth Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (CTCC) yn gosod safonau cyffredin i sicrhau bod prosesau ac offer yn addas at y diben ac yn rhyngweithredol ledled y DU. Dylai Prif Gwnstabiliaid sicrhau:
- bod eu heddlu yn dilyn arfer proffesiynol awdurdodedig (APP) y Coleg Plismona mewn perthynas â gweithrediadau, ymateb i ddirywiad, plismona arfog, rheoli argyfwng, ymchwiliadau, ffensiwn, ac erlyniadau i sicrhau eu bod yn bodloni safonau cenedlaethol yn y meysydd hyn;³¹ a
 - bod pob swyddog rheng flaen a staff wedi'u hyfforddi a bod ganddynt fynediad at adnoddau sy'n eu cynorthwyo i nodi pryd y dylid gwneud atgyfeiriad Prevent er mwyn sefydlu a hybu cysondeb.

Cydweithio

48. Mae'r CTCC yn darparu trosolwg strategol o'r modd y caiff plismona Gwrthderfysgaeth cenedlaethol ei gyflawni'n weithredol, gan gynnwys y Rhwydwaith Plismona Gwrthderfysgaeth. Mae hyn yn cynnwys Unedau Gwrthderfysgaeth rhanbarthol (CTU) ac Unedau Cudd-wybodaeth Gwrthderfysgaeth (CTIU) a sefydlwyd ledled Cymru a Lloegr. Mae'r unedau hyn hefyd yn gweithio ar y cyd â'u cymheiriaid yn yr Alban a Gogledd Iwerddon i:
- sicrhau ymateb plismona cyson yn unol â'r bygythiad a'r risg a aseswyd ar hyn o bryd;
 - darparu gorchymyn a rheolaeth i ymchwiliadau dan arweiniad gwrthderfysgaeth;
 - gweithio mewn partneriaeth agos â'r Gwasanaeth Diogelwch sy'n arwain cudd-wybodaeth ac asesiad gwrthderfysgaeth; a
 - darparu rheolaeth effeithiol ac effeithlon o asedau ac adnoddau gwrthderfysgaeth ym mhob ardal heddlu.
49. Mae'r cydweithrediad hwn yn hwyluso cydgysylltu ar draws ymateb gwrthderfysgaeth gorfodi'r gyfraith ac yn galluogi ymateb hyblyg ac effeithlon i fygythiadau, gan sicrhau bod gan bawb sydd eu hangen fynediad at alluoedd arbenigol.

³¹ <https://www.app.college.police.uk/>

50. Dylid sicrhau Prif Gwnstabiliaid fod eu heddlu yn gweithio'n effeithiol gyda:

- 50.1. eu CTU neu CTIU rhanbarthol i rannu cudd-wybodaeth a chael mynediad at alluoedd arbenigol ar gyfer ymchwiliadau a chasglu cudd-wybodaeth, gan gynnwys ditectifs medrus, dadansoddwyr, arbenigwyr fforensig, ac ymchwilwyr uwch-dechnoleg; a
- 50.2. yr Uwch Gydlynnydd Cenedlaethol ar gyfer Ymlid ac Atal a'r Uwch Gydlynnydd Cenedlaethol ar gyfer Diogelu a Pharatoi i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o asedau ac adnoddau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol wrth ymateb i weithgarwch terfysgol.

Cysylltedd â phartneriaid

51. Mae dull yr CONTEST yn uno'r sectorau cyhoeddus a phreifat, cymunedau, dinasyddion a phartneriaid tramor i wrthsefyll pob math o derfysgaeth. Mae heddluoedd yn allweddol wrth hwyluso'r ymateb aml-asiantaeth hwn. Dylai'r Prif Gwnstabiliaid sicrhau bod eu heddlu yn:

51.1. cefnogi ymlid drwy:

- a. weithio'n agos gyda phartneriaid i ganfod, ymchwilio ac amharu ar weithgarwch terfysgol, gan gynnwys rhannu gwybodaeth yn effeithiol i gyfoethogi'r ddealltwriaeth o'r bygythiad terfysgol ar lefel leol;

51.2. cefnogi gweithgarwch Prevent drwy:

- a. datblygu partneriaethau lleol gyda sefydliadau cymunedol i gyflawni prosiectau i ddiogelu unigolion rhag radicaleiddio;
- b. gweithio'n agos gyda'u hawdurdod lleol a phartneriaid aml-asiantaeth eraill i asesu'r risg o bobl yn cael eu denu i derfysgaeth, gan ddarparu, lle bo'n briodol, manylion proffil lleol gwrthderfysgaeth yr heddlu (CTLTP);
- c. cefnogi cydlynwyr Prevent awdurdodau lleol i ddatblygu prosiectau sy'n gysylltiedig â Prevent i helpu i feithrin gwydnwch cymunedol; a
- d. cefnogi cyfleoedd i ddatblygu heriau cymunedol i eithafwyr;

51.3. cefnogi Diogelu a Pharatoi trwy:

- a. lledaenu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ar y bygythiad terfysgol, methodolegau a lliniaru i randdeiliaid sy'n gyfrifol am leoliadau hygyrch cyhoeddus i'w galluogi i ystyried diogelwch amddiffynnol a defnyddio asedau;
- b. yn dilyn Cyd-egwyddorion Rhyngweithredu Gwasanaethau Brys (JESIP) i alluogi cydweithio effeithiol rhwng heddluoedd a gwasanaethau brys eraill (gweler yr adran Galluoedd Trawsbynciol) Dylai rheolwyr tactegol a gweithredol gael eu hyfforddi a'u diweddarw wrth weithio gydag egwyddorion JESIP.
- c. cytuno ar gefnogaeth y Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) mewn eithafion i rai rolau plismona.

Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol

Diffinnir troseddau difrifol a chyfundrefnol (SOC) fel unigolion sy'n cynllunio, yn cydgysylltu, ac yn cyflawni troseddau difrifol, boed yn unigol neu mewn grwpiau a/ neu fel rhan o rwydweithiau trawswladol. Prif gategorïau SOC yw: cam-drin plant yn rhywiol, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl a throseddau mewnfudo cyfundrefnol (**gwendidau**); cyffuriau anghyfreithlon (gan gynnwys methodolegau cyflenwi megis llinellau sirol), drylliau anghyfreithlon; a throseddau meddiangar cyfundrefnol (**cymunedau**); a seiberdroseddu, twyll, gwyngalchu arian, llwgrwobrwyo a llygredd, ac osgoi cosbau (**economaidd**).³²

Cyffuriau

52. Mae cyffuriau'n sbardun sylweddol i droseddu, yn achosi niwed i'n cymunedau ac yn cyfrannu at tua hanner yr holl ddynladdiadau a throseddau meddiangar. Mae asesiad gan yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn awgrymu y credir bod 48% o'r grwpiau troseddu cyfundrefnol yn ymwneud â throseddau cyffuriau.³³ Mae'r rôl hanfodol sydd gan blismona wrth fynd i'r afael â chyflenwad cyffuriau a llinellau sirol yn cael wedi'i hamlinellu yn y Strategaeth Gyffuriau 10 mlynedd ('*From Harm to Hope*')³⁴. Mae'r Strategaeth yn nodi'r gofyniad i dargedu'r cyflenwad cyffuriau ar draws pob cam o'r gadwyn gyflenwi ac ym mhob haen o blismona. Mae heddluoedd yn allweddol i dorri'r gadwyn gyflenwi a chyflawni ein hymrwymiad i leihau troseddau a dynladdiad sy'n gysylltiedig â chyffuriau ac mae ganddynt gyfraniad gwerthfawr i'w wneud mewn perthynas â thair blaenoriaeth y strategaeth gyffuriau: lleihau'r cyflenwad, lleihau'r galw, a gwella triniaeth ac adferiad. Dylai Prif Gwnstabiliaid a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu fod yn ymwybodol o'u rôl wrth gefnogi darpariaeth leol yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau Goresgyn Cyffuriau a gweithio mewn partneriaeth yn unol â Chanllawiau'r Strategaeth Gyffuriau ar gyfer Partneriaid Cyflenwi Lleol³⁵.

³² Daw'r prif gategorïau o Asesiad Strategol Cenedlaethol yr NCA 2021. [ffeil \(nationalcrimeagency.gov.uk\)](#)

³³ Asesiad Strategol Cenedlaethol yr NCA o Droseddau Difrifol a Chyfundrefnol (NSA) (2022)

³⁴ [O niwed i obaith: Cynllun cyffuriau 10 mlynedd i leihau trosedd ac achub bywydau - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

³⁵ [Canllawiau strategaeth gyffuriau ar gyfer partneriaid cyflawni lleol - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

Twyll

53. Twyll yw'r math mwyaf cyffredin o droseddau sy'n cyfrif am 41% o'r holl droseddau yng Nghymru a Lloegr ac mae'r gyfran hon yn cynyddu. Wrth i fanciau ddatblygu systemau awtomataidd gwell i ganfod twyll, mae twyllwyr wedi dod yn fwyfwy medrus wrthdrin neu dwyllo dioddefwyr i drosglwyddo arian iddynt. Mae twyll yn achosi niwed ariannol i'r economi a'r cyhoedd, gan gostio £4.7b y flwyddyn i unigolion yn 2015/16 (Costau Economaidd a Chymdeithasol Troseddau 2018) ac yn achosi niwed emosiynol i'r cyhoedd gyda thri chwarter y dioddefwyr yn dioddef o ryw fath o effaith emosiynol (Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr Blwyddyn yn Gorffen Mawrth 2020). Mae twyll hefyd yn tanseilio diogelwch cenedlaethol drwy effeithio ar hyder y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol, sefydlogrwydd busnesau ac enw da ariannol y DU. Mae arian a geir yn dwyllodrus yn aml yn llifo i droseddau cyfundrefnol, terfysgaeth a masnachu pobl gyda dwy ran o dair o grwpiau troseddu cyfundrefnol yn canolbwyntio ar dwyll yn ymwneud â gweithgareddau troseddol eraill.
54. Rydym yn mabwysiadu ymagwedd eang at fynd i'r afael â thwyll, gan weithio ar draws y llywodraeth a phartneriaid yn y Ganolfan Troseddau Economaidd Genedlaethol aml-asiantaeth (NECC), gan gynnwys gorfodi'r gyfraith, rheoleiddwyr, asiantaethau cudd-wybodaeth y DU, partneriaid diwydiant ac elusennau. Bydd y Strategaeth Twyll newydd yn nodi'n fuan sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd, ac yn amlygu'r flaenoriaeth a roddir i fynd i'r afael â thwyll gan y llywodraeth. Dylai fywiogi ymhellach waith y system weithredol, sydd eisoes yn cynyddu ei hymateb trwy weithredu ar argymhellion y Grŵp Cydgysylltu Tasgau Strategol Cenedlaethol (NSTCG) yn dilyn tasgio gwirfoddol heddluoedd gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA, a gyhoeddwyd gyntaf ar 19 Rhagfyr 2019. Roedd y dasg yn wreiddiol yn gofyn i bartneriaid gefnogi gwaith mewn meysydd allweddol gan gynnwys gwell gweledded a chydlynu gweithgarwch gweithredol. Mae gan blismona rôl bwysig i'w chwarae, ac rydym yn buddsoddi mewn ymateb gwell, gan gynnwys swyddi cudd-wybodaeth ac ymchwiliol ychwanegol yn yr NCA, Heddlu Dinas Llundain (CoLP), a ROCUs, gan ddisodli'r system Adrodd ar Dwyll ar gyfer twyll a chyflwyno'r Uned Gofal Dioddefwyr Troseddau Economaidd Genedlaethol. Bydd hyn yn galluogi llawer mwy o ffocws ar weithgarwch aflonyddgar rhagweithiol, sy'n cael ei arwain gan gudd-wybodaeth ar bob lefel er mwyn lleihau'r niwed o dwyll cyn gynted â phosibl, a thrwy greu capasiti ar lefel genedlaethol i ddarparu pecynnau cudd-wybodaeth i ROCUs a heddluoedd yn ogystal

â chefnogi lledaenu o'r Biwro Cudd-wybodaeth Twyll Cenedlaethol (NFIB). Mae hwn yn symudiad bwriadol o'r safiad adweithiol yn bennaf mewn plismona hyd yma.

Troseddau Mewnfudo Cyfundrefnol (OIC)

55. Mae troseddau mewnfudo cyfundrefnol (OIC) yn fygythiad gweladwy a chynyddol, gyda rhwydweithiau cyfundrefnol yn elwa o danseilio diogelwch ffiniau'r DU, yn aml yn manteisio ar bobl agored i niwed, ac yn peryglu eu bywydau fwyfwy mewn llwybrau peryglus i'r DU. Mae bygythiad OIC yn parhau i gynyddu, gyda phob dull mynediad yn uwch nag yn 2018 a'r nifer uchaf erioed o gofnodion cychod bach yn dod i mewn o flwyddyn i flwyddyn. Ni allwn barhau i wneud newid cynyddrannol a disgwyl i'r duedd hon wrthdroi, ond yn hytrach mae angen i adnoddau gorfodi'r gyfraith gael eu hail-flaenoriaethu i ddod â ffocws priodol ar OIC. Felly, dylai pob Heddlu weithredu amcanion tasgio Deddf Troseddau a Llysoedd 2021 (diwygiedig Ionawr 2023) a gyhoeddwyd gan DG NCA. Ochr yn ochr â'r NCA, Gorfodi Mewnfudo, Llu'r Ffiniau a phartneriaid eraill, bydd plismona'n cyfrannu'n allweddol at ein hymdrechion i darfu ar y drosedd niwedidiol hon ac i godi ymwybyddiaeth ehangach, gan wneud y math hwn o drosedd yn fwy anodd.

Canlyniadau

56. Mae'r elfennau mwyaf gweladwy o drosedd i'w gweld yn aml mewn cymdogaethau lleol: colledion personol i dwyll gan ffrindiau a theulu, car wedi'i ddwyn, trais gangiau, neu ddelio cyffuriau. Mae'r troseddau hyn yn cael eu hysgogi gan we gymhleth o fusnes troseddol byd-eang, cyfundrefnol a'i brif ysgogiad yw elw. Felly mae mynd i'r afael â SOC yn hanfodol i gyflawni tri maes allweddol y Cynllun Trechu Trosedd:

- Torri dynladdiad, trais difrifol a throseddau cymdogaeth
- Datgelu a dod â niwed cudd i ben ac erlyn cyflawnwyr.
- Meithrin gallu a chapasiti i ymdrin â thwyll a throseddau ar-lein

57. Mae SOC hefyd yn bygwth ein diogelwch cenedlaethol - mae'n tanseilio diogelwch dinasyddion y DU yn uniongyrchol, uniondeb y wladwriaeth a hyder yn ein system ariannol. Mae'r Adolygiad Integredig o Ddiogelwch, Amddiffyn, Datblygu a Pholisi

Tramor³⁶ yn nodi camau gweithredu blaenoriaeth y llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â SOC a Throseddau Economaidd, gan gynnwys cryfhau ein hymateb plismona lleol a rhanbarthol.

58. Mae'r NCA yn gyfrifol am arwain ymateb system gorfodi'r gyfraith i SOC. Mae hyn yn cynnwys cydgysylltu a thasgio yn ogystal â chasglu, dadansoddi a lledaenu darlun cudd-wybodaeth genedlaethol. Mae Heddluoedd ac Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCUs) – trefniadau cydweithio rhwng heddluoedd sy'n darparu galluoedd plismona arbenigol - yn gweithio'n agos gyda'r NCA a phartneriaid gorfodi'r gyfraith eraill gan gynnwys Gorfodi Mewnfudo a Llu'r Ffiniau, ac yn chwarae rhan hanfodol wrth fynd i'r afael â SOC a lleihau'r bygythiad. Cenhadaeth rhwydwaith ROCU yw amddiffyn cymunedau drwy darfu ar grwpiau troseddu cyfundrefnol, troseddwr unigol a'r rhai sy'n eu galluogi. Gan weithio ochr yn ochr â phartneriaid, mae rhwydwaith ROCU yn gyfrifol am alluogi ymateb plismona integredig, gan gydlynu galluoedd plismona allweddol sydd eu hangen i gyflawni hyn. Heddluoedd sy'n delio â'r rhan fwyaf o'r galw SOC o fewn y system gorfodi'r gyfraith. Rhaid iddynt hefyd weithio'n effeithiol gyda phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol yn ogystal â'r sector gwirfoddol ac elusennol i gymryd camau i atal y niwed dinistriol a hirdymor y gall SOC ei achosi i unigolion a chymunedau.
59. Bydd arweinydd plismona SOC NPCC pwrpasol newydd, yn gweithio mewn partneriaeth â Chyfarwyddwr Cyffredinol yr NCA, yn darparu trosolwg cenedlaethol o ymateb yr heddlu i SOC ac yn cefnogi datblygiad parhaus galluoedd yr heddlu a ROCU.
60. Dylai Comisynwyr yr Heddlu a Throseddu a Phrif Gwnstabiliaid sicrhau bod eu heddlu a ROCU yn cyfrannu at fynd i'r afael â SOC. Mae'r fframwaith cyflenwi '4P' yn parhau i ddarparu dull cydlynol ar gyfer pob partner. Y pedwar llinyn yw:
- **Ymlid** troseddwr trwy erlyniad ac aflonyddwch;
 - **Paratoi** ar gyfer pan fydd troseddau difrifol a chyfundrefnol yn digwydd a lliniaru effaith;

³⁶ <https://www.gov.uk/government/publications/global-britain-in-a-competitive-age-the-integrated-review-of-security-defence-development-and-foreign-policy>

- **Diogelu** unigolion, sefydliadau a systemau rhag effeithiau troseddau difrifol a chyfundrefnol;
- **Atal** pobl rhag cymryd rhan mewn troseddau difrifol a chyfundrefnol

61. Yn ymarferol, dylid cyflawni hyn drwy:

- gwneud defnydd da o'r holl gudd-wybodaeth sydd ar gael i adnabod, deall a blaenoriaethu SOC a llywio penderfyniadau³⁷;
- cael y systemau, prosesau, y bobl a'r sgiliau cywir i fynd i'r afael â SOC a chadw'r cyhoedd yn ddiogel;
- sicrhau bod gweithgarwch aflonyddgar yn lleihau'r bygythiad gan SOC;
- atal pobl rhag cymryd rhan neu ail-ymgysylltu â SOC, gan gynnwys diogelu unigolion sy'n cael eu hecsbloetio'n droseddol, yn economaidd, neu'n rhywiol; a
- sicrhau bod unigolion, cymunedau a sefydliadau yn gallu gwrthsefyll ac yn wydn i effaith SOC.

Galluoedd

62. Bydd natur a maint y bygythiad SOC y mae angen i heddluoedd ymateb iddo yn wahanol ym mhob ardal heddlu. Fodd bynnag, dylai fod gan bob heddlu gydrannau gallu craidd i fynd i'r afael â SOC a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Nodir y rhain ym mharagraff 75 ymlaen.

63. Mae'r galluoedd i ymateb i gyflenwad cyffuriau, twyll a throseddau mewnfudo cyfundrefnol wedi cael eu hamlygu'n benodol fel rhai pwysig yn yr adran hon isod. Cyflenwad cyffuriau yw un o'r prif fygythiadau sy'n gyrru ymdrech yr heddlu ac o ystyried pryderon am effaith bosibl costau byw uwch ar gyflenwad a galw am gyffuriau, mae'n hanfodol bod gweithgarwch i fynd i'r afael â'r bygythiad hwn yn parhau. Mae twyll yn parhau i gynyddu, yn aml yn cael ei hwyluso ar-lein ac mae ganddo gysylltiadau rhyngwladol yn rheolaidd, disgwylir y bydd cynnydd pellach yn ystod cyfnod o ansicrwydd economaidd a chostau byw uchel. Mae'r gallu i heddluoedd allu ymateb yn ddigonol i'r bygythiad hwn yn hollbwysig i fynd i'r afael â'r bygythiad.

³⁷ Fel y penderfynir gan fecanwaith blaenoriaethu cytunedig System Dasgio SOC.

64. Yn dilyn cyhoeddi'r ddogfen hon, bydd atodiad twyll yn cael ei gynhyrchu yn rhoi mwy o fanylion am yr hyn a ddisgwylir o ran yr ymateb i dwyll. Yn olaf, er mwyn canolbwyntio ar y bygythiad trawsbynciol sy'n deillio o Gangiau Troseddau Cyfundrefnol y Balcanau Gorllewinol, mae angen casglu cudd-wybodaeth leol a rhanbarthol penodol sy'n bwydo i mewn i'r asesiad bygythiad cendlaethol., er mwyn cefnogi amhariadau wedi'u targedu'n well ar wendidau allweddol.

Galluoedd - Mynd i'r afael â Chyflenwi Cyffuriau

65. Ar lefel leol – mae angen i heddluoedd gael dealltwriaeth gytûn o'r bygythiad cyffuriau lleol a pherthynas waith dda gyda phartneriaid allweddol. Dylai heddluoedd gael asesiad o'r bygythiad cyffuriau lleol (mewn llawer o heddluoedd gelwir hyn yn 'Broffil Marchnad Cyffuriau'), sy'n cynnwys asesiad o nwyddau, cyflenwad, galw a chyfran o'r farchnad. Dylid rhannu asesiad bygythiad cyffuriau lleol gyda ROCUs a NCA i gefnogi'r Asesiad Strategol Cenedlaethol. Fel y nodwir yn y Canllawiau'r Strategaeth Gyffuriau ar gyfer Partneriaid Darparu Lleol, dylid defnyddio'r rhain hefyd i gefnogi asesiad anghenion ar y cyd a ddatblygwyd gan y Bartneriaeth Atal Cyffuriau lleol, drwy adolygu data a thystiolaeth cyffuriau lleol, a chytuno ar strategaeth a chamau gweithredu cyffuriau lleol, gan gynnwys datblygu cofnodi a rhannu data fel yr amlinellwyd yn y Strategaeth Gyffuriau 10 mlynedd. Dylai heddluoedd weithio ar y cyd ag aelodau'r Bartneriaeth Brwydro yn erbyn Cyffuriau a'r Uwch Berchennog Cyfrifol lleol (SRO) sydd enwebedig i gefnogi datblygiad a chyflwyniad y cynhyrchion hyn ar y cyd.

66. Ar lefel ranbarthol - Mae Tasgluoedd Niwed Uchel a Chyffuriau o fewn rhanbarthau yn ceisio amharu ar SOC, gan gynnwys ffocws penodol ar fynd i'r afael â'r cyflenwad cyffuriau marchnad ganol. Mae'r timau gweithredol yn cynnwys swyddogion a staff amlddisgyblaethol sy'n darparu ystod o alluoedd arbenigol gan gynnwys gwyliadwriaeth, dadansoddi ariannol a gorfodi, wedi'u hategu gan ymateb ymchwiliol cryf i droseddu niwed uchel. Mae'r timau'n gweithredu mewn partneriaeth â phartneriaid system SOC, gan gynnwys yr NCA i nodi cyfleoedd i atal ac amharu ar droseddau cyfundrefnol ac i atafaelu asedau troseddol a chyffuriau anghyfreithlon. Mae Cudd-wybodaeth y Swyddfa Gartref hefyd yn chwarae rhan allweddol yn y Cyflenwad Cyffuriau Rhyngwladol a dylai heddluoedd rannu gwybodaeth am fewnforio cyffuriau.

67. Mae Cydlynwyr Llinellau Cyffuriau yn cael y dasg gan y Ganolfan Cydgysylltu Llinellau Sirol Cenedlaethol (NCLCC) ac yn darparu cyngor ac arweiniad ar linellau sirol i bartneriaid gweithredol gorfodi'r gyfraith. Dylent gefnogi heddluoedd ar draws gweithgaredd Ymlid, Diogelu, Atal a Pharatoi ar linellau cyffuriau, gan goladu ac adrodd i'r NCLCC. Dylent gyfrannu at hyfforddiant Llinellau Sirol Cenedlaethol a chydlynu ymatebion i Wythnosau Dwysáu Llinellau Sirol.

Galluoedd - Twyll

Galluoedd Lleol (Ymlid)

68. Ar lefel leol - dylai fod gan heddluoedd alluoedd digonol i ymateb i 'alwadau am wasanaeth' lleol, neu ledaeniadau gan NFIB sydd yn y sefyllfa orau mewn heddlu lleol, pecynnau cudd-wybodaeth rhagweithiol a ddsberthir gan asiantaeth genedlaethol gan gynnwys yr NCA, a blaenoriaethau eraill fel yr argymhellir gan yr NSTCG sydd angen cefnogaeth leol. Mae hyn yn cynnwys paratoi ar gyfer disodli Action Fraud gyda system newydd yng Ngwanwyn 2024 a fydd yn gwella'r offer adrodd ar gyfer dioddefwyr, gan gynyddu nifer yr adroddiadau wedyn, darparu mwy o gudd-wybodaeth i blismona ar gyfer ymchwiliadau, a chaniatáu ar gyfer mwy o amharu ar dwyllwyr ar raddfa ac ar bob lefel o'r system blismona.

69. Caiff hyn ei gyflawni gan trwy ddilyn yr arfer gorau fel yr argymhellwyd gan CoLP yn eu rôl fel Heddlu Arweiniol Cenedlaethol ar gyfer twyll gan gynnwys eu "Model Ymchwilio i Dwyll" ac uwchsgilio swyddogion drwy Academi Economaidd a Seiberdroseddu CoLP. Rhaid i rymoedd hefyd roi mwyo sylw i alluoedd a gynigir gan yr NCA i'r system gorfodi'r gyfraith neu y gellir eu broceru gan bartneriaid gan yrNECC. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogaeth i ecsbloetio cudd-wybodaeth a gedwir mewn Adroddiadau Gweithgarwch Amheus (SARs), porth y Tasglu Cudd-wybodaeth Gwyngalchu Arian ar y Cyd i ddata'r sector preifat, arbenigedd y Ganolfan Enillion Troseddau, a mynediad at alluoedd sensitif a gedwir gan yr NCA neu gan gymuned gudd-wybodaeth y DU.

Galluoedd Lleol (diogelu)

70. Ar lefel leol dylai fod gan heddluoedd y galluoedd i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr, gan atal ail-erledigaeth. Mae'n rhaid i heddluoedd sicrhau bod pob dioddefwr yn eu hardal leol yn cael lefel addas o gefnogaeth i'w hamddiffyn rhag twyll pellach ar wahân

i unrhyw ymchwiliad, fel yr hyn a ddarperir gan yr Uned Genedlaethol Gofalu am Ddiodefwr Troseddau Economaidd a redir gan CoLP. Dylai heddluoedd hefyd allu grymuso'r cyhoedd i amddiffyn eu hunain yn well rhag twyll, ac mae timau cyfathrebu'r heddluoedd yn chwarae rhan bwysig, ochr yn ochr â ROCUs a'r rhwydwaith Diogelu twyll eginol, wrth ddarparu cyngor amddiffynnol i unigolion a chymunedau a busnesau lleol. Dylai heddluoedd weithio gyda grwpiau lleol yn ogystal â chenedlaethol fel Safonau Masnach, y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol a'r NECC. Mae'n hanfodol bod negeseuon amddiffynnol yn cyd-fynd â'r Pecyn Cymorth Cyfathrebu Twyll y cytunwyd arno'n genedlaethol ac a gynhyrchwyd gan bartneriaeth NECC, a bod cydgysylltu canolog yn caniatáu ar gyfer dad-wrthdaro a gwella gweithgarwch..

71. Dylai heddluoedd barhau i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu drwy ddefnyddio data a ddarperir gan Action Fraud i ddiogelu a darparu cyngor pwrpasol i osgoi ailwylltio.

Galluoedd Rhanbarthol

72. Ar lefel ranbarthol – Mae'r Unedau Troseddau Economaidd Rhanbarthol (RECU) a'r Timau Troseddau Economaidd Rhagweithiol (PECTs) yn darparu nifer o alluoedd hollbwysig sy'n cefnogi ymatebion cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i dwyll, gan gynnwys mynd ar drywydd unigolion a grwpiau troseddol niwed uchel, gan weithio ar y cyd â'r NECC a'r CoLP. Mae hyn yn cynnwys galluoedd ymchwiliol i gynnal ymchwiliadau adweithiol ac, yn gynyddol, ymchwiliadau rhagweithiol a galluoedd tarfu arbenigol (gweler paragraff 76.10). Mae Cydlynwyr Twyll Rhanbarthol neu Swyddogion Datblygu Twyll yn eistedd o fewn RECUs ac yn cydgysylltu'r ymateb ar lefel yr heddlu i dwyll ar draws eu rhanbarth, gan ddarparu cysylltedd rhwng y CoLP a phlisma lleol.
73. Cyflawnir hyn drwy fuddsoddi £100m mewn mynd i'r afael â thwyll dros y tair blynedd nesaf i greu dros 300 o swyddi arbenigol newydd ar draws plisma a'r NCA gan gynnwys ymchwilwyr, ymchwilwyr ariannol, swyddogion datgelu penodol, ymchwilwyr cyfryngau digidol, dadansoddwyr a swyddogion cudd-wybodaeth. Dylai lluoedd hefyd fanteisio ar y gudd-wybodaeth a gipiwyd gan y system Action Fraud wedi'i huwchraddio unwaith y bydd yn weithredol yn 2024 - bydd gan PECT y gallu i dderbyn pecynnau cudd-wybodaeth rhagweithiol a gynhyrchir yn genedlaethol a defnyddio cudd-wybodaeth NFIB yn rhagweithiol i nodi, tarfu a mynd ar drywydd twyllwyr mwy difrifol a threfnus a thwyll OCG.

Galluoedd - Troseddau Mewnfudo Cyfundrefnol

74. Ar lefelau lleol a rhanbarthol - mae angen i heddluoedd gael dealltwriaeth gytûn o'r bygythiad o droseddau mewnfudo lleol a dylent ddarparu digon o allu gweithredol sy'n gymesur â'r bygythiad. Dylai fod gan heddluoedd hefyd berthnasoedd gwaith da gyda phartneriaid allweddol gan gynnwys NCA, Gorfodi Mewnfudo, Cudd-wybodaeth Llu'r Ffiniau a'r Swyddfa Gartref, a phrosesau clir ar waith ar gyfer rhannu gwybodaeth a cudd-wybodaeth. Byddwn yn sicrhau bod gan yr heddlu bwerau priodol, gan wneud y mwyaf o'u gallu i gymryd camau effeithiol i fynd i'r afael ag OIC, heb orfod tynnu partneriaid gorfodi'r gyfraith i mewn yn ddiangen. Mae Cydlynwyr OIC yn cael y dasg gan arweinydd NPCC, a dylent ddarparu cyngor ac arweiniad, a lledaenu arferion gorau ar wrthweithio OIC, coladu gwybodaeth ac adrodd i arweinydd NPCC. Dylai pob Heddlu ymgysylltu â rhaglen adolygu cymheiriaid MSOICU a dangos sut y maent wedi gweithredu'r ddau argymhelliad penodol, sydd wedi'u cynnwys mewn Cynlluniau Gwella a'r arfer da cyffredinol o'r Rhaglen. Ar y lefel leol dylai fod gan heddluoedd y galluoedd i amddiffyn a chefnogi dioddefwyr, gan gynnwys trwy adrodd i'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol ar gyfer caethwasiaeth fodern a masnachu mewn pobl. Dylai timau cyfathrebu'r heddlu hefyd chwarae rhan bwysig wrth ddarparu cyngor amddiffynnol i gymunedau a busnesau lleol.

Troseddau Cyfundrefnol Difrifol - Galluoedd Craidd

75. Dylai Prif Gwnstablaid fod yn sicr bod gan eu heddlu lleol:

- 75.1. y cudd-wybodaeth a galluoedd dadansoddi digonol i nodi a deall lefel y bygythiad, y risg a niwed a achosir gan SOC o fewn ardal yr heddlu ac i ddarparu dealltwriaeth ddatblygedig o grwpiau troseddu cyfundrefnol (OCGs) sy'n effeithio ar gymunedau, unrhyw unigolion blaenoriaeth o fewn y grwpiau hyn ac ystyriaethau bygythiad gweithredol, risg a niwed;
- 75.2. uwch swyddog dynodedig sy'n gyfrifol am oruchwylio ymateb yr heddlu i fynd i'r afael â SOC, gan gynnwys cadeirio byrddau rheoli OCG, byrddau tasgu lefel yr heddlu, a dwyn Swyddogion Cyfrifol Arweiniol (LROs) i gyfrif am gyflawni cynlluniau 4P;
- 75.3. gallu gweithredol digonol i ymateb i'r galw SOC a roddir ar yr heddlu nad yw eisoes yn eiddo i'r ROCU, NCA neu asiantaeth bartner arall. Dylai hyn hefyd gynnwys y gallu gweithredol i ymateb i 'alwadau am wasanaeth' lleol, lledaeniadau gan NFIB,

ac argymhellion a fabwysiadwyd o dan dasgau gwirfoddol y CCA twyll a thrwy'r broses NSTCG;

- 75.4. gallu tarfu digon i ymateb i'r galw SOC a roddir ar y heddlu nad yw eisoes yn eiddo i'r ROCU, NCA neu asiantaeth bartner arall i leihau'r bygythiad gan SOC. Bydd hyn yn cael ei wella drwy gael Swyddogion Canlyniadu Lleol (LROs) wedi'u neilltuo i OCGs wedi'u mapio a rhwydweithiau troseddol lle modd, i amharu'n ddi-baid ar eu model busnes, eu seilwaith a'u gallu i achosi niwed. Mae'r rolau hyn yn ganolgi i'r gwaith o gysylltu'r system SOC trwy ddylunio a chydlynu ymateb aml-asiantaeth effeithiol. Dylent gael eu hyfforddi'n briodol yn y modd y mae rhwydweithiau troseddol yn gweithredu, a gallu manteisio ar yr ystod lawn o alluoedd yr heddlu a'r asiantaeth bartner i leihau'r bygythiad SOC;
- 75.5. gorfodi unedau seiberdroseddu (FCCUs) i ymchwilio i ddigwyddiadau seiberdroseddu ac erlid troseddwr. Dylai'r unedau hyn ddarparu cyngor diogelu seiberdroseddu i fusnesau a'r cyhoedd sy'n gyson â chyngor, arweiniad a chynhyrchion y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSC) i helpu sefydliadau i feithrin gwydnwch mewn ymateb i ddigwyddiadau seiber a bygythiadau. Dylent hefyd nodi a chyfeirio pobl ifanc fregus yn ardal eu llw ar gyfer ymyrraeth Prevent;
- 75.6. Gallu atal SOC i nodi, atal, a dargyfeirio pobl rhag ymgysylltu neu ail-ymgysylltu yn SOC. Dylai hyn gynnwys gweithio gydag asiantaethau partner i ddiogelu unigolion sy'n cael eu hecsbloetio'n droseddol neu'n rhywiol, er enghraifft gan linellau cyffuriau OCGs³⁸; a
- 75.7. gallu perfformiad gweithredol i fesur effaith y heddlu yn erbyn bygythiadau SOC ar draws y 4P. Dylai hyn gynnwys cadw at fframweithiau perfformiad cenedlaethol fel y rhai sydd eu hangen i lywio a chefnogi'r ymateb gorfodi'r gyfraith genedlaethol i gyflenwi cyffuriau a llinellau sirol fel y nodir yn y Strategaeth Gyffuriau 10 mlynedd.
76. Er mwyn mynd i'r afael â SOC yn effeithlon ac yn effeithiol, mae angen i'r ymateb gorfodi'r gyfraith hefyd fod yn rhanbarthol, wedi'i ddarparu gan ROCU. Yn amodol ar gyllid (gweler paragraff 85) bydd pob ROCU yn cynnal galluoedd arbenigol craidd a

³⁸ Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi canllawiau i gynorthwyo heddluoedd ac asiantaethau partner i weithio gydag unigolion i atal cymryd rhan mewn SOC. [Pecyn Cymorth i Ymarferwyr – Gweithio gyda phobl ifanc i atal cymryd rhan mewn Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol \(publishing.service.gov.uk\)](#)

ddefnyddir i leihau'r bygythiad SOC. Mae'r rhain yn hygyrch i heddluoedd drwy brosesau tasgau sefydledig³⁹ ac yn cynnwys:

Asesu bygythiadau a galluoedd cudd-wybodaeth:

- 76.1. Mae Adrannau Cudd-wybodaeth Ranbarthol (RID) yn casglu, dadansoddi a lledaenu cudd-wybodaeth ddefnyddiol i naill ai hysbysu dealltwriaeth o'r darlun bygythiad troseddau cyfundrefnol yn y rhanbarth, neu i gefnogi ymdrechion ymchwiliol sy'dd angen cymorth cudd-wybodaeth. Byddant yn gweithio gyda'r NCA a sefydliadau partner i gefnogi dealltwriaeth genedlaethol y bygythiad, a gyda heddluoedd.⁴⁰ O fewn y RID mae'r galluoedd canlynol:
- a. Mae tîm Asesu Bygythiad Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCTA), fel rhan o adran cudd-wybodaeth ROCU, yn darparu un gallu rhanbarthol i nodi ac asesu bygythiadau gan OCGs, unigolion blaenoriaeth uchel neu wendidau eraill a nodwyd mewn modd safonol a hwyluso Tasgio System SOC (paragraff 81). Mae un darlun o'r bygythiad SOC, wedi'i goladu gan heddluoedd⁴¹, y ROCUs a'r NCA, yn sicrhau'r ddealltwriaeth orau o'r bygythiadau ledled y DU.
 - b. Mae Unedau Cudd-wybodaeth Sensitif Rhanbarthol (SIU) yn amgylcheddau diogel sy'n gallu derbyn, asesu, dadansoddi, lledaenu a diogelu cudd-wybodaeth a data "pob ffynhonnell" sy'n ymwneud â bygythiad SOC. Maent yn gweithredu fel rhan o rwydwaith cenedlaethol ehangach i gaffael, ychwanegu gwerth a lledaenu ystod eang o gudd-wybodaeth a data i gefnogi'r ymateb i SOC.⁴² Mae SIUs yn darparu darlun o fygythiadau ac un amgylchedd cudd-wybodaeth ar gyfer cyrchu'r holl wybodaeth tra'n sicrhau bod yr holl fesurau diogelu agoynnol yn eu lle. Maent hefyd yn darparu swyddogaeth Porth ar gyfer ceisiadau am wasanaethau cymorth ROCU.

³⁹ Mewn llawer o achosion, caiff effaith y galluoedd hyn hategu gan asedau cyflenwol o fewn yr heddlu neu'r NCA fel rhan o fodel cyflawni gallu cenedlaethol.

⁴⁰ Bydd heddluoedd yn cynnal swyddfa cudd-wybodaeth yr heddlu, sy'n gyfrifol am reoli a choladu'r holl gudd-wybodaeth o fewn ardal heddlu, a fydd yn cefnogi casglu cudd-wybodaeth am weithgarwch lleol sy'n ymwneud â SOC.

⁴¹ Bydd heddluoedd yn cynnal eu hasesiadau lleol eu hunain o fygythiadau, ond dylid gwneud hyn mewn ffordd gyflenwol i asesiad ROCTA.

⁴² Mae'r rhwydwaith hwn yn cynnwys SIUs yn yr NCA, Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF), Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (PSNI), Heddlu'r Alban, Gwasanaeth Heddlu Metropolitan, BTP, Ardal Reoli Troseddau'r Weinyddiaeth Amddiffyn, Gwasanaethau Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi, Gorfodaeth Mewnffudo'r Swyddfa Gartref a Llu'r Ffiniau.

c. Mae Unedau Cudd-wybodaeth Carchardai Rhanbarthol, yn eu model gweithredu presennol, yn manteisio ar gudd-wybodaeth sy'n bodoli o fewn amgylchedd y carchardai.⁴³ Mae ganddynt berthynas effeithiol â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi (HMPPS), ystâd y carchardai a gydag asiantaethau eraill sy'n ymwneud â mynd i'r afael â SOC. Mae'r unedau hyn hefyd yn cefnogi'r gwaith o reoli troseddwr troseddau cyfundrefnol yn y carchar, gan gefnogi a llywio'r ymateb aml-asiantaeth i reoli a tharfu ar ailadroseddu.

- 76.2. Mae plismona cudd, yn weithredwyr sylfaen ac uwch, yn cael tystiolaeth a chudd-wybodaeth. Mae swyddogion sylfaen yn cynnal ymdreiddiad lefel isel nad yw'n gofyn am y gallu i wrthsefyll craffu dwys tra bod uwch swyddogion yn ymgymryd â ymdreiddiadau lefel uwch a chymhleth ac yn gallu gwrthsefyll craffu dwys;
- 76.3. Mae Plismona Cudd Ar-lein (UCOL) yn mynd i'r afael â cham-drin a cham-fantiesio'n rhywiol ar blant ar-lein a throseddoldeb a alluogir gan y we dywyll. Caiff UCOLs eu defnyddio i sefydlu a chynnal perthnasoedd gydag unigolyn, rhwydwaith neu sefydliad trwy ddefnyddio'r rhyngwyd gyda'r diben cudd o gael cudd-wybodaeth, gwybodaeth neu dystiolaeth fel rhan o weithrediad awdurdodedig;
- 76.4. Mae cydlynwyr Rhwydwaith Cudd-wybodaeth Asiantaethau'r Llywodraeth (GAIN) ym mhob ROCU yn rhoi mynediad i heddluoedd ac ymchwilyr ROCU at gudd-wybodaeth a gedwir gan asiantaethau partner. Maent yn cydgysylltu'r gwaith o rannu cudd-wybodaeth sy'n ymwneud â SOC gyda phartneriaid yn unol â gofynion deddfwriaethol;
- 76.5. Mae Unedau Gwyliadwriaeth Technegol yn darparu galluoedd gwyliadwriaeth technegol megis ymyrraeth offer, gwyliadwriaeth ymwithiol, gweithgaredd cudd ar-lein, dadansoddiad cyfrifiadurol fforensig o ddyfeisiau, megis ffonau neu liniaduron; ac
- 76.6. mae Ymyrraeth Offer Wedi'i Dargedu'n Rhanbarthol (TEI) yn ymyrryd ag unrhyw fath o ddyfais neu offer, fel ffonau clyfar, cyfrifiaduron neu gerbydau, i gael gwahanol fathau o ddata. Mae Rheolwyr Rhanbarthol TEI penodedig yn eistedd ym mhob rhanbarth. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod pob rhanbarth yn gweithredu, ar lefel isafswm ofynnol orfodol o allu, ac yn medru cynnal y lefel ofynnol honno, a bod yn sail ar gyfer darparu gallu ar y rhwydwaith. Maent hefyd yn ffurfio rhwydwaith cenedlaethol, dan arweiniad Uwch Gydlynnydd Technegol NPCC, sy'n

⁴³ Ar adeg cyhoeddi, roedd strwythurau cudd-wybodaeth carchardai cenedlaethol yn cael eu hadolygu a gallai rôl a chylch gorchwyl yr RPIU newid.

eistedd o fewn Canolfan Cydlynu TEI system gyfan ac yn arwain ar ddatblygu gallu TEI ar ran plismona.

Galluoedd tarfu:

